# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 1 MAWRTH 2019 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

## Dydd Santes Dwynwen



Tegid Rhys



Tim a Jez



Ednyfed Williams t.5




Diwrnod Cariad@Urdd Annie ac Eleri,
Y Siop Siocled



Helen Job t.18

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Mawrth 23- Ar Werth Ebrill 4, 2019**



Seremoni'r haggis



Nerys Ann a Penni

















Dathlu gyda gwledd

## RHESTR Y SWYDDOGION

CADEIRYDD
- Stan Lyall 813659

SWYDDOG HYSBYSEBION
Sian Jones
01745 812214
russelljones9
@talktalk.net

GOLYGYDDION:
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

YSGRIFENNYDD
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

TRYSORYDD
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

CARTWNYDD
Huw Vaughan Jones

DOSBARTHWYR
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

TEIPYDDION:
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
ybigwn@hotmail.co.uk


# Gair gan y Golygydd

Braf oedd gweld aelodau o staff rhai o siopau a busnesau'r dref yn gwisgo coch, gwyn a gwyrdd ac wedi addurno'u ffenestri wrth ddathlu Dydd Gŵyl Santes Dwynwen ac wrth iddynt gefnogi digwyddiadau Cariad@Urdd ar y 25ain o Ionawr eleni. Roedd disgyblion tair ysgol gynradd y dref wedi gwisgo yn lliwiau'r Urdd hefyd.

Trefnwyd y digwyddiadau gan Bwyllgor Apêl Dinbych Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020 sydd gyda tharged ariannol o £60,000. Maent wedi sicrhau tua £19,000 yn barod ond mae dipyn o waith i'w wneud eto!

Fel diweddglo i'r diwrnod, trefnodd Nerys Ann a Mair o fenter gymunedol MaryDei, Noson Santes Dwynwen a Rabbie Burns yng Ngwesty'r Guildhall – cyfuniad o ddau ddiwylliant ac roedd haggis ar y fwydlen a dawnsio gwerin i ddilyn!! Roedd tyrfa fawr yn bresennol - croesdoriad o bobl o bob oed yn cynnwys Cymry Cymraeg, y di-gymraeg a dysgwyr - enghraifft wych o drigolion y dref a'r cyffiniau yn dod at ei gilydd i ddathlu ac i fwynhau noson allan! Melys moes mwy o nosweithiau tebyg!

------------------------------

Mae'r mwyafrif o'n pacedi creision gwag yn cael eu taflu i'r bin mawr du gan nad oes modd ail-gylchu'r math yma o blastig ar hyn o bryd (mae'n fetalig y tu mewn) - "Not Yet Recycled" sydd ar ambell i baced a llawer efo'r symbol o'r bin sbwriel traddodiadol a welwn ar y stryd neu'r parc er mwyn ein hannog i roi'r bag yn y bin sbwriel – mae'n ein hannog i gadw'n hamgylchedd yn lân ond oni fuasai ei ail-gylchu'n well?

Yn ddiweddar fe gyhoeddodd cwmni Walkers eu bod wedi dod i gytundeb â chwmni TerraCycle i ail-gylchu pacedi creision gwag ar ôl pwysau gan y cyhoedd. I hwyluso hyn yn Llangollen, mae Ms Mair Davies, aelod o Gymdeithas y Ddaear, wedi gosod wyth safle yn y dref i bobl allu gadael eu pacedi creision yno. Yna anfonir y cwbl i'w hailgylchu gan y cwmni TerraCycle.

Yma yn Ninbych os ydym o ddifri o ran ail-gylchu pacedi creision, mae modd inni anfon y pacedi mewn amlenni yn y post yn rhad ac am ddim i'w hailgylchu gan TerraCycle. Ond faint ohonom sydd efo'r amser a'r ewyllys i wneud hynny? Efo ymgyrch yn y dre yn cynnwys yr ysgolion, busnesau, Cyngor y Dref a chi a fi, mae'n bosib i ni hefyd sefydlu canolfannau casglu fel yn Llangollen. Be amdani?

Yng Nghaerdydd mae siop diblastig wedi agor lle gellwch fynd a'ch bagiau gwag a'ch poteli a'ch cynwysyddion gwag i brynu pob math o gynnyrch megis sebon, hylif golchi llestri a grawnfwyd yn lle'u prynu nhw wedi eu pacedu mewn plastig fel y maen nhw yn yr archfarchnadoedd a siopau eraill h.y. llenwi yr un cynhwysyddion gwag dro ar ôl tro.

Dyna ddwy enghraifft o sut i helpu'r amgylchedd sef ail- gylchu bagiau creision a phrynu nwyddau hollol diblastig. O ystyried problem byd-eang gwastraff plastig, pitw iawn yw'r ymdrechion hyn ond mae'n gam bychan ymlaen!

----------------------------------

Dymuniadau gorau ichi wrth ddathlu Gŵyl Ddewi.
Erfyl Williams

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

Di enw
£10.00
Dr H a Mrs E Watkin
£5.00
Eirwyn a Mary Jones
£10.00
Nerys Owen, Llanelwy
£10.00
John Idris ac Einir Owen
£20.00

## Dyddiadur

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws
Nos Lun, Mawrth 4ydd.
Cinio Gŵyl Ddewi yng nghwmni Y Parchedig Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts yn festri Capel y Fron am 7yh
Pris y tocyn: £6 (wrth y drws)
Croeso cynnes i bawb.

---------------------------

Theatr Twm o'r Nant
Sadwrn, Mawrth 30 am 7.30
Tŷhai: Triawd Indo Celtaidd (Cerddoriaeth)

---------------------------------

Sadwrn, Ebrill 6 am 7.30
Theatr Bara Caws: 'Costa Byw.'
Tocynnau: £10
01745 812349
Siop Clwyd 01745 81343

---------------------------------

Sadwrn, Mawrth 30ain. 10-12
Bore Goffi yn Eirianfa.
MENCAP Dinbych a Rhuthun

---------------------------------

Nos Wener, Mehefin 21ain. am 7yh
Noson Goffi a Hwyl yn Ysgol Llanrhaeadr
MENCAP Dinbych a Rhuthun

Ariennir gan Llywodraeth Cymru

# NOSON SANTES DWYNWEN

Dros y blynyddoedd diwethaf , mae ein mudiad MaryDei wedi dathlu Diwrnod Santes Dwynwen mewn amrywiol ffyrdd. Eleni mi wnes benderfynu trefnu dathliad ar y cyd, nid yn unig o Ddiwrnod Cyfeillgarwch a Chariad y Cymry ond dathliad hefyd o fywyd y bardd Albanaidd Robbie Burns, a anwyd ar Ionawr 25ain 1759.

Fe'm hysgogwyd i drefnu'r noson o gyd-ddathlu gan ddysgwraig o'r enw Jean McGibbon a bu hi a'i gŵr Andrew, sy'n Albanwr, yn ran allweddol o'r trefniadau a'r noson. Andrew a wnaeth danio'r noson drwy gyflwyno yr 'Ode to the Haggis' o waith Burns.

O'r holl ddigwyddiadau cymunedol yr ydym wedi eu trefnu, bu i'r noson hon ddal dychymyg ein cymuned ac fe gawsom 130 o westeion gyda Gwesty y GuildHall yn orlawn. 'Roeddwn yn hynod falch fel Tiwtor i Popeth Cymraeg fod dros hanner y gwesteion yn ddysgwyr, yn dod o bob rhan o Ddyffryn Clwyd. Roeddem hefyd fel Cyfarwyddwyr MaryDei yn arbennig o hapus fod na gymaint o'n gwesteion wedi rhannu â ni eu profiadau fel gofalwyr teulu.

Darparwyd y wledd i gyd gan y GuildHall a busnesau lleol a hoffwn ddiolch I'r holl noddwyr am ein cefnogi. 'Roedd hi'n noson o ddathliad cymunedol i'w chofio a gwnaethpwyd elw o £1,000 at waith gofal MaryDei yn y gymuned.

Nerys Ann Roberts

Noson ffantastig! Noson lwyddiannus o ddathlu! Daeth tyrfa fawr yn cynnwys dysgwyr at ei gilydd a phawb wedi mwynhau. Llawer yn gwisgo'r cilt – golygfa liwgar i ni yn Ninbych!
Roedd y gerddoriaeth yn fendigedig, yn amrywiol a rhywbeth at ddant pawb. Cafodd yr hagis ei arwain i mewn i'r Gild mewn steil i sŵn y bacbib a darlleniad o waith Robert Burns, ' Ode to the Haggis.'
Roedd y wledd yn ysblennydd – bwyd Cymreig a bwyd Albanaidd gyda phwdinau blasus iawn i ddilyn. Lwc i ni fod 'na gyfle i ddawnsio wedyn er mwyn cael gwared o'r caloriau!!
Gweithiodd Nerys Ann, Mair a'r tîm o helpwyr mor galed fel ein bod yn gallu mwynhau noson mor arbennig. Cafodd pawb noson fythgofiadwy a byddwn yn cofio'r noson am flynyddoedd i ddod.
Jean Mc Gibbon

Cafodd y gloddestwyr groeso cynnes yn y Gild a thipyn o giltiaid i'w gweld. Dwi'n amau fod 'cariad' yn yr awyr!
Noson wych gyda thrywanu'r hagis yn y ffordd draddodiadol, cerdd Robert Burns yn cael ei darllen yn ddramatig, digon o gerddoriaeth Geltaidd a dawnsio gwerin yn hwyrach. Pawb wedi mwynhau a'r bwyd mor flasus yn enwedig yr haggis a'r cranachan (pwdin Albanaidd). Gweithiodd Nerys Ann a Mair
mor galed fel ein bod yn gallu mwynhau noson mor llwyddiannus – diolch i'r ddwy ac i'r tîm o helpwyr. Da iawn, wir! Noson allan wych!
Helen Job

Fel y gwyddoch chi, mae hi'n Ddydd Santes Dwynwen pob Ionawr 25ain. Sut bynnag, mae hi'n Noson Burns hefyd ar Ionawr 25ain.
( Dw i wedi bod yn briod ers 41 blwyddyn ac mi oedd y teulu yn dod yn wreiddiol o'r Alban.)
Dwedodd y wraig wrtha i,"Lle ddylen ni fynd ar Ddydd Santes Dwynwen? Mae'r tywydd yn Ynys Llanddwyn, Môn (hen gartref Dwynwen) yn ddiflas."
Atebes hi,"Dan ni ddim yn mynd i Ynys Môn, cariad. Dan ni'n mynd i Noson Dwynwen a Noson Burns yn y Guildhall heno."
Felly, cyrhaeddon ni Y Guildhall am hanner awr wedi chwech a cawsom ni groeso cynnes.
Roedd y bwyd yn flasus iawn a bwyton ni haggis a pei Dwynwen. Clywon ni ganeuon traddodiadol ac roedden ni'n dawnsio. Roedd y Guildhall yn hyfryd iawn efo canhwyllau bach ar y bwrdd.
Rydyn ni'n gobeithio dychwelyd eto flwyddyn nesa.

Jim a Pam Brooks neu Ifor a Sioned

Fel arfer tydi'r merched ddim ond yn cael mynd allan efo aelodau Cymdeithas Caledfryn unwaith y tymor! *(Mae hyn unwaith yn fwy na mae'r dynion yn cael mynd allan efo aelodau Merched y Wawr! John)* Ond eleni cawsom wahoddiad i ymuno â nhw ar Noson Santes Dwynwen — rhamantus lawn medd rhai! — a Burns, diolch i Nerys Ann.
Heb fod yn rhy siwr beth yn union i'w ddisgwyl, na beth i'w gael i'w fwyta (haggis neu be'?) cawsom ein siomi o'r ochr orau — cwmni da, llond y lle — wynebau cyfarwydd ac anghyfarwydd, yn ddysgwyr, Albanwyr, Cymry, awyrgylch cyfeillgar, pryd o fwyd blasus iawn *(Wnes i fwynhau'r haggis yn arw —John)* a'r holl gawsys a'r danteithion melys i ddilyn, heb sôn am yr arlwy o adloniant gawsom. Uchafbwynt y noson? Gweld y "Guild" yn orlawn ac - wrth gwrs -cael cyfle i weld Erfyl mewn kilt!
Nerys a John Davies

Rabbie Burns a Santes Dwynwen

Y lle yn hollol llawen – cinio da,
cân a dawns ac awen
a Rabbie Burns ar ei ben
a da iawn Santes Dwynwen.

Sîn cilt a dawnsio Celtaidd – noson pawb
Sŵn pibau Albanaidd,
Cyfeillion bro'n mwynhau braidd
a Haggis Tywysogaidd!

Calon a dawnsio Ceilidh – a chanu
iach iawn, dyna barti
a noson i'n digoni,
mynnu hwyl a'i mwynhau hi.

Dwy wlad yn llawn dathliadau – mawr yr hwyl
Gymry hoff a'u doniau,
Bu i'r hwyl Gaeleg barhau,
Dwy hil yn codi hwyliau.

Dwy wlad yn ganmoladwy – mawr diolch
Mary Dei am arlwy
Yn ein hen iaith a'u hiaith hwy
A'i fod yn fythgofiadwy!

Arwel Emlyn

# 'HOLI A STILIO' YNG NGHWMNI EDNYFED WILLIAMS



Mab y mans oeddwn i a hynny bedair gwaith drosodd fel y symudai nhad o ofalaeth i ofalaeth:- 1930-1933 - y Frongoch ger y Bala;
1933-1938 – Wrecsam; 1938 -1942 – Pontllyfni rhwng Caernarfon a Phwllheli; 1942 -1949 – Treffynnon. Wedyn Coleg Prifysgol Cymru Bangor (1949- 1955), Byddin Prydain Fawr wedyn (1955-1957) ac yna'n ôl fel athro yn Ysgol Ramadeg y Rhyl lle bum yn ddigon diddig am ugain mlynedd cyn symud i fod yn Ddirprwy Brifathro Ysgol Maes Garmon yr Wyddgrug.
Ym 1960 mi briodes Eirlys o Gilcain ac fe gawsom ddau fab ac un ferch. Rwy'n daid i wyth ac yn hen daid bedair gwaith. Ers Mis Mai 2018 rwyf yn byw yma yn Ninbych ac wrth fy modd!

Beth ydi eich atgof cyntaf?

Rydw i'n cofio'n glir iawn fy chwaer Gwenllian yn cael ei geni a minnau'n bedair oed. Yn ôl arferiad yr oes honno, digwyddodd yr enedigaeth yn y llofft ffrynt ac mi roedd yr hogyn ar dân eisiau gweld ei fam. Mi gefais weld y babi'n fuan ar ôl iddi gyrraedd a chofiaf yn glir iawn yr wyneb bach, bach pinc a hi, maes o law, ddaeth yn wraig i'r Parch Eifion Jones a byw yn nhŷ gweinidog Capel y Fron am weddill ei hoes, bron iawn.

Pa dri lle sy'n bwysig ichi?

Pontllyfni - saith milltir o Gaernarfon ar lôn Pwllheli lle bum i'n byw o 1938 i 1942. Dim ond capel, ysgol, siop, garej ac ychydig o dai. Cymdeithas hollol Gymreig oedd yno a phopeth o bwys yn troi o gwmpas y capel – gwasanaethau, dosbarthiadau nos, y Band of Hope, cwmni drama, eisteddfod flynyddol ac Urdd Gobaith Cymru. Y pum mlynedd yno a'm gwnaeth yn Gymro.
Tynywern – tyddyn bychan 60 acer yn Llandrillo ger y Bala. 8 o warthâeg, tua 60 o ddefaid, dau fochyn, caseg ac ychydig o ieir. Dyma gartref fy mam a Nain ac Ewythr Tom oedd yn byw yno.. Mi dreuliais I bob gwyliau haf yno yn 'helpu' bwydo ieir a moch, troi'r fuddai hen ffasiwn i wneud menyn cartre, casglu tocion gwrych a dysgu trin pladur a chryman a.y.y.b. Mi roeddwn wrth fy modd yn enwedig yn dysgu pysgota yn yr afon.
Dwygyfylchi neu Capelulo ger Llanfairfechan. Dyma hoff le fy niweddar wraig, Eirlys. Pentre bach del uwchben y môr ac yno yr es i â'i llwch hi. Mi fydda i'n mynd â blodau yno yn flynyddol ers 9 mlynedd. Lle spesial iawn i mi.

Soniwch am y 'ffeil' sydd gennych

Un o'm diddordebau ydi hen geir 'clasurol.'Rydw i wrth fy modd mewn sioeau ac yn tynnu lluniau rhai prin. Mae gen i dros 400 mewn ffeiliau. Uchafbwynt oedd ymweld â'r daith enwog o Hyde Park, Llundain i dref glan môr Brighton – dros 80 o foduron wedi eu cynhyrchu cyn 1904. Ymhlith pobl amlwg yn teithio oedd Vera Lynn ddaeth yn enwog fel cantores yn ystod y rhyfel 1939-45.

Beth sy wedi achosi'r embaras mwya' ichi?

Yr embaras mwyaf a deimlais oedd gorfod dod i Ysgol Ramadeg y Rhyl ym mis Medi 1957 am gyfweliad am swydd yn Adran y Gymraeg a hynny yn fy ngwisg orau fel milwr. Roeddwn yn teithio o Aldershot i'r Rhyl heb amser i alw adref am siwt deidi.
Felly dyma'r Sarsiant a'i esgidiau gloywon a'i streipiau yn gorymdeithio(!!) i mewn i'r ystafell a phawb yn rhythu. Am ryw reswm mi wnaeth y 'milwr dewr' argraff dda ac mi ges gynnig y swydd.

Pwy ydi'r person mwya' diddorol rydych wedi ei gyfarfod/ chyfarfod?

Yn 1951 mi dreuliais rai misoedd mewn pentref yn Sir Galway yn yr Iwerddon o'r enw Spiddal. Y syniad oedd ceisio dysgu tipyn ar yr iaith Wyddeleg. Bum yn byw mewn bwthyn tô gwellt traddodiadol a dim ond un ferch fedrai siarad Saesneg yno.
Mi gofiaf daith i un o'r ynysoedd a chyfarfod â Tomás. Hen ŵr dros ei 80oed oedd Tomás, yn ddall, yn fyddar ac yn anllythrennog. Ond mi fedrai adrodd hen chwedlau Gwyddelig am oriau oddi ar ei gof – chwedlau yn llawn o hud a lledrith, cewri, corachod, brwydro a rhyfela etc. Am ei fod wedi ei eni yn ddall, fe gafodd Thomás ei brentisio gyda hen storïwr er mwyn dysgu't grefft, yn union fel cyfarwyddiaid Cymraeg yn oes y Mabinogion.

Beth sy'n dân ar eich croen chi?

Cyfarfod â hen ddisgyblion Ysgol Maes Garmon sy'n prysuro i ddweud,' Sir, I've forgotten my Welsh.' Mae'n weddol hawdd dysgu'r iaith i ddisgyblion. Sut i'w cael i ddefnyddio'r iaith – dyna'r broblem fawr.

Oes na un peth arbennig yr hoffech ei wneud yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesa' ma?

Mynd i Neuadd Albert unwaith eto I ganu gyda'r 'mil o leisia.'
Profiad hollol wefreiddiol.

Sut fyddwch yn treulio eich oriau hamdden?

Canu gyda Chôr Meibion Trelanwyd.
Gweithio yn siop Y Cyfeillion yn Ysbyty Glan Clwyd.
Casglu tebotiau digrif/gwirion. Mae gennyf 40 ar hyn o bryd.

Pa gyngor fyddech yn ei roi i Brif Weinidog?

Defnyddio ei holl ddylanwad i ddarparu gwaith i bobl ifanc ymhob rhan o'r wlad, nid ar hyd yr M4 yn unig.

Pa fath o raglenni teledu sy'n rhoi'r pleser mwya' ichi?

Rwyn hoffi portreadau o bobl neu gymunedau diddorol megis 'Cefn Gwlad.'Mae gan Dai Llanilar ddawn arbennig i gael 'cymeriadau' i fod yn naturiol ar y bocs.

Pa un o'ch amrywiol weithgareddau ydi'r anoddaf i chi?

Mi gefais gais, sawl tro, i drosi geiriau i'r Gymraeg. Dyma i chi dasg ddyrys dros ben. Nid yn unig rhaid i'r cyfaddasiad gyfleu ystyr y gwreiddiol ond hefyd rhaid iddo ffitio rhythmau'r gerddoriaeth. Erbyn hyn mae gen i tua 50 o drosiadau a wnes i dros y blynyddoedd. Fy hoff un i ydi 'Breuddwydio wnes' sef addasiad o 'I dreamed a dream' o'r sioe 'Les Miserable' (Schonberg). Mae hon ar gael fel unawd e.e. gan Shan Cothi ar gryno ddisg ac fel trefniant i gorau meibion.
Bu'r anthem allan o'r sioe 'Chess' gan y grŵp Abba yn waith gosod yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Colwyn ac mae llawer o gorau ar hyd ac ar led Cymru yn ei defnyddio erbyn hyn. Pleser mawr i mi yw eu clywed bob tro.

Oes llyfr wrth erchwyn y gwely ar hyn o bryd?

Mae dau neu dri fel rheol. Ar hyn o bryd, 'Pen ar y Bloc' gan Vaughan Roderick sy'n cael sylw – casgliad o flogiau yr arbenigwr ar wleidyddiaeth a Senedd Cymru yn arbennig.

Rhannwch gyfrinach fach efo ni

Mae gen i dipyn o ofn cwn dieithr. Yn ystod blynyddoedd coleg mi fyddwn yn gweithio drwy'r Haf fel postmon yn ardal Treffynnon. Rydw I'n siwr fod gan gŵn rywbeth yn erbyn postmyn.
Mi ges i sawl brathiad. Na, cadwch eich cŵn yn ddigon pell, diolch yn fawr.

# Cyfarchion

## LLONGYFARCHIADAU



Llongyfarchiadau i Owain a Caryl ar enedigaeth merch fach, BECA MARED, chwaer i GETHIN.
Wyres i Twm a Medwen, Bodelwydden a Dewi a Gwenda, Dinbych.

Hefyd Pen-blwydd Hapus yn 3oed i Gethin ar Fawrth 25ain.





Llongyfarchiadau mawr i Gwenllian Fflur Huws LLB sydd wedi cymhwyso fel cyfreithwraig ar y 1af o Chwefror yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd fel Cyfreithwraig dan Hyfforddiant.
Fe fu Gwenllian, sydd yn wreiddiol o Hen Golwyn yn astudio gradd LLB yn y Gyfraith a Chymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd lle y graddiodd yng Ngorffennaf 2015 cyn parhau i astudio cwrs ymarfer y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd gan gwblhau'r cwrs yng Ngorffennaf 2016.
Mae Gwenllian yn mwynhau sawl agwedd o'r gyfraith ac ar gael i gynghori ym meysydd prynu a gwerthu tai a thir, ewyllysiau a phrofiant, cyfraith teulu ac ymgyfreithio sifil a chyflogaeth.
Mae Gwenllian yn edrych ymlaen i barhau i weithio yn Guthrie Jones & Jones ac i ddarparu cyngor i drigolion Dyffryn Clwyd a thu hwnt.
Pob hwyl i ti Gwenllian.

**Cofiwch am y Noson Grempog, 7 o'r gloch, nos Fawrth 5ed o Fawrth yng Nghapel Y Fron - er budd Cymorth Cristnogol. Bydd Anna Jane Evans yno yn sgwrsio am waith Cymorth Cristnogol a chyfle i brynu nwyddau Masnach Deg.**



Llongyfarchiadau i Steffan Jones am raddio mewn Nyrsio Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Bangor oddiwrth y teulu i gyd.



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# Y Capeli

## Capel Brwcws

Rhian Cattell a’r mab George agorodd yr Ysgol Sul Ionawr 20fed. Eu neges oedd pwysigrwydd ailgylchu i arbed y bydysawd. Y Parch. Andras Iago oedd yn gwasanaethu yn y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd.

Agorwyd yr Ysgol Sul, Ionawr 27ain, gan Iona Roberts gyda’r thema ‘Cariad’ a hanes Santes Dwynwen. Yn y prynhawn y Parch Nesta Davies oedd yn pregethu ar yr un pwnc â Iona yn y bore. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Bore Sul, Chwefror 3ydd, aeth aelodau’r Ysgol Sul i weld Banc Bwyd, Dinbych. Cawsom groeso a hanes y Banc Bwyd gan Rhys Thomas. Talwyd y diolchiadau gan Cai Jones. Braf oedd cael deall yn well gwaith y Banc Bwyd a chyfraniad gwerthfawr y gwirfoddolwyr.

Mr Richard Jones, Bethel, oedd cennad y prynhawn. Bryan Roberts oedd wrth yr offeryn.

Dydd Sul, Chwefror 10fed, Karen Jones a’r mab, Arthur, fu’n gyfrifol am agor yr Ysgol Sul. Cawsom stori’r ‘Samariad Trugarog’ gyda’r plant i gyd yn cymryd rhan yn y ddrama. Oedfa Gymun dan ofal y Parch. Andras Iago a gafwyd yn y prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.

Nos Lun, Chwefror 11eg, yn y Gymdeithas Ddiwylliadol, cafwyd noson yng nghwmni Berwyn Evans, Llansannan.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Gyda thristwch rhaid cofnodi i ni golli un o’n haelodau, sef Mr Arfon Evans, a fu farw ar Ionawr 27ain.

Cydymdeimlwn â’i briod Nansi, Alun y mab, Helen a Marian, y merched, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth.

Cynhaliwyd ei angladd yn y capel ar ddydd Iau, Chwefror 7fed, dan arweiniad y Gweinidog, y Parch. Andras Iago, gyda thraddodiant yn dilyn ym mynwent y dref.

Mrs Dorothy Rogers oedd wrth yr organ.

O ran oedfaon, cafwyd cwmni’r Parch. Nesta Davies yn y gwasanaeth boreol ar Ionawr 27ain. Croesawyd hi gan Mrs Nerys Ann Roberts, llywydd y mis, a’r cyfeilydd oedd Mrs Dorothy Rogers.

Ar fore Chwefror 10fed y Gweinidog oedd y cennad. Croesawyd ef gan Mr Gwilym Luke Jones, llywydd y mis, a Mrs Catrin Warren oedd yr organyddes.

## Capel y Fron

Ein gweinidog Y Parch Andras Iago oedd yn gwasanaethu bore Sul, Ionawr 20fed pryd y gwnaeth weinyddu’r Cymun Sanctaidd ac yna bore Sul, Chwefror 3ydd fe wnaeth Mrs Wendy Lloyd Jones, Llywydd y Mis, estyn croeso i Mr. Richard Jones, Bethel.

Ar fore dydd Llun, Ionawr 14eg, fe glywsom am farwolaeth aelod ffyddlon ac annwyl iawn sef Mrs Anwen Williams ac fe wnaeth Mrs Gaynor Prew, llywydd mis Ionawr, gydymdeimlo ar ein rhan gydag Anita, Dave a’r ddau ŵyr bach yr oedd gan Anwen feddwl mawr ohonynt. Yr oedd y gwasanaeth yn y Fron, dydd Mawrth, Ionawr 29ain.



Banc Bwyd Dinbych

# Y Cymdeithasau

## Clwb Gosod Blodau Dinbych

Croesawodd Felicity Cooksey bawb i’r cyfarfod gan gynnwys rhai aelodau newydd. Ein harddangoswraig oedd Anita Wright o Stafford a ddaeth â’i gŵr gyda hi – un parod ei gymorth.

Thema’r noson oedd ‘Ond i chi.’

Y gosodiad cyntaf oedd coedlan gyda Rhedyn Gwyrdd y Goedwig a Wych-Hasel o wahanol liwiau, Ffarwel Haf melyn gyda chanol tywyll, deiliach gwyrdd a thylluan yn clwydo ar gangen.

‘Golygfa eira’ oedd yr ail un a lamplen â’i phen i lawr gyda gosodiad o Aliwm gwyrdd, blodau gwynion, Lesanthums, Carnasiwns a Gypsophila i gynrychioli cawodydd eira, ar ei phen. Y trydydd gosodiad oedd cynhwysydd hirsgwar gyda ffens fach o’i gwmpas, dail eiddew a gwyrddni gyda Ffarwel Haf bychain piws, Carnasiwns a Lesanthums.

Ysgol ddwbl ddefnyddiwyd i greu’r pedwerydd campwaith gydag un gosodiad ar ei chanol a’r llall ar ei phen yn cynnwys Rhedyn y Goedwig, Gerberas gwynion, dau sbrigyn Tegeirian a dau gi gwiail yn swatio wrth ei throed. Effeithiol iawn.

Y pumed un oedd basged weiren a’i thu mewn wedi ei orchuddio â dail Aspidestra mewn cynhwysydd. Deiliach gwyrddion, Feronica piws, Gerberas melyn a sbrigau o Ffarwel Haf gwynion o’u cwmpas i gyd. Hyfryd iawn.

I gloi’r noson defnyddiwyd ffrâm bren fawr ar siâp calon i nodi dydd Sant Ffolant gyda deiliach, rhosod cochion, rhosod bach coch a melyn a Lesanthums. Trawiadol eto.

Roedd Anita Wright wrth ei bodd yn sgwrsio hefo ni trwy gydol y noson – difyr iawn.

Margherita Jones



# Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws



Testun sgwrs a sleidiau Berwyn Evans, Llansannan oedd ' Dyffryn Aled fel carchar i Almaenwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.'

Mae plasty Dyffryn Aled rhwng Llansannan a Bryn Rhyd-yr-Arian.

Teulu'r Wynniaid oedd y tirfeddianwyr a phan briododd Diana Wynne a Philip Yorke, Erddig yn 1782 dyma uno'r ddau deulu.

Mae'n debyg mai Diana oedd yn bennaf gyfrifol am adeiladu plasdy Dyffryn Aled er bod cyfeiriadau at y plasdy cyn iddi gael ei geni. Y perchnogion diwethaf oedd Pierce Wynne York (1826 – 1891) a'i briod Lucy Penelope o Ddyfnaint (1826- 1906). Roedd Pierce yn gymwynasgar ac yn ystod cyfnod o gyni yn 1885, gostyngodd y rhenti o 10%.

Fel sawl ystad arall mi fu raid i stad Dyffryn Aled arall-gyfeirio a daeth mwyn-gloddio yn un ffordd o greu incwm ychwanegol ac agorwyd sawl gwaith plwm a chopr.

Yn fuan ar ôl marw Pierce yn 1891, symudodd Lucy o Ddyffryn Aled i Blas Cornel sydd ond tafliad carreg o'r plas ac fe osodwyd y plasdy i Ysbyty Meddwl' Royal Cheadle Lunatic Asylum' Manceinion gan gyflogi llawer o bobl o'r ardal leol.

Bu farw Lucy ym Mhlas Cornel yn 1906 yn 80 oed. Fel ei gŵr o'i blaen, bu'n weithgar gyda'r ysgol a'r eglwys ynghyd â'r holl denantiaid. Gwerthwyd y plasdy a'r ystâd i Countess Dundonald o Gastell Gwrych, Abergele ac yn 1911 gwerthwyd Ystad Dyffryn Aled (4356 o aceri).

Yn 1914 cymerodd y Weinyddiaeth y plasdy a weirglodd Plas Newydd ar rent, i'w baratoi i fod yn garchar i Almaenwyr oedd yn uchel swyddogion y Llynges Forwrol. Yn ystod mis Awst daeth Catrawd o'r Royal Engineers i Ddyffryn Aled i wneud y lle yn barod ac i'w droi yn garchar. Roedd yn bolisi i gadw'r Swyddogion rhag cymysgu gyda'r milwyr cyffredin. Ym Medi daeth Catrawd o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig i Ddyffryn Aled ynghyd â chogyddion a staff glanhau a.y.y.b. yn barod i warchod y carcharorion.

Yn dilyn ei ddefnydd fel






Dau garcharor o Ddyffryn Aled yn cael eu harwain trwy Dinbych

Ysbyty Meddwl roedd bariau haearn ar bob ffenestr yno'n barod. Byddai rhan o'r terfynau wedi ei amgylchynu gan weiar bigog ddwbl, 12 troedfedd o uchder.

Cadwyd tua 100 o garcharorion yno ond roedd Dyffryn Aled yn fwy o 'westy' i'r Almaenwyr o ystyried safon y bwyd ar y fwydlen a chyflwr yr ystafelloedd ac mae'n anodd dychmygu'r 'gelyn' yn chwarae criced ac yn byw bywyd moethus tra roedd ein dynion ni yn brwydro yn y Rhyfel Mawr.

Plas Isa oedd yn cyflenwi llefrith i Ddyffryn Aled a daeth siop fach Bryn Rhyd-yr- Arian yn eithaf llewyrchus ynghyd â siopau Llansannan.

Mae'n wir dweud hefyd i un swyddog o Ddyffryn Aled roi ei lw i beidio â dianc ac y cai fynd i'r siop leol ei hun.

Un o'r carcharorion oedd Oberleutenant Wolf von Tirpitz. Roedd y teulu yn gyfeillion mynwesol â Churchill a'i deulu ac yn wir, anfonodd Churchill delegram i'w dad yn ymddiheuro iddo am ddal ei fab ond prysurai i ddweud y cai ei edrych ar ei ôl yn foneddigaidd iawn yn Nyffryn Aled.

Ym Mrwydr Heligoland Bight ym Môr y Gogledd yn 1914, trechwyd llynges yr Almaen a chodwyd nifer o Almaenwyr o'r môr. Daethpwyd â phob Capten neu uchel swyddog i Ddyffryn Aled yn garcharorion rhyfel.

Bu tair dihangfa o Ddyffryn Aled. Yn y ddihangfa gyntaf fe arestiwyd dau garcharor yn ardal Talsarnau ger Harlech ar ôl wyth niwrnod. Cymerwyd hwy gyntaf i Orsaf yr Heddlu ym Mlaenau Ffestiniog, yna i



Ystafell y carcharor

'Lock - up' Love Lane, Dinbych cyn mynd â nhw o flaen eu gwell i dribiwnlys yng Nghastell Caer. Cawswant ddedfryd o 28 diwrnod mewn cell ac yna eu trosglwyddo yn ôl i Ddyffryn Aled.

Roedd yr ail ddihangfa yn un mwy mentrus. Ychydig amser ynghynt bu trefniant rhwng Llywodraeth Prydain a'r Almaen i gyfnewid ychydig o unigolion pwysig – yr un cyfri o'r ddwy wlad. Yn ôl yr hanes roedd un o'r unigolion hyn yn digwydd bod yn garcharor yn Nyffryn Aled sef Capt. Tholens ond cyn iddo ddianc, gyrrodd Capt. Tholens lythyr mwyaf diniwed ond mewn côd i'r Almaen ac ymhen rhai wythnosau cafodd lythyr yn ôl yn dweud bod priodas eu cyfaill ar Sadwrn, Awst 14eg. 1915 ac y byddai'r 'reception'yn para tan y Sul. Wedi darllen y llythyr yn Nyffryn Aled, gwyddai Capt. Tholens y byddent yn trefnu llong danfor(U-Boat 38) i'w godi ef a dau arall oddiar y Gogarth Fawr, Llandudno.

Trwy gynllunio gofalus a cherdded y 23 milltir i Landudno yng nghanol nos, dyma gael hyd i'r goleudy ond oherwydd y tywyllwch, methwyd â chael hyd i'r llwybr a dringo i lawr i'r traeth a rhoddwyd y ffidl yn y to tan y noson wedyn.

Llwyddo yr ail noson i gyrraedd y traeth ac er cychwyn tân efo broc môr, doedd y tri carcharor a'r U-Boat 38 ddim yn gallu gweld ei gilydd.

Ceisio eto nos Lun ond cododd storm enfawr yn ystod y dydd a gwyddai'r tri ar y lan na allai'r un llong danfor ddod yn agos i'r lan ar y fath dywydd.

Yna cerdded yn ôl i Landudno, bron â llwgu, a gwahanu oddiwrth ei gilydd gyda'r syniad y byddai'n fwy diogel ar ben eu hunain gyda'r bwriad o ddal trên i Lundain.

Ond cafodd y tri eu dal yn Llandudno a'u cludo'n ôl i Ddyffryn Aled ac yna i sefyll o flaen Cwrt Milwrol yng Nghastell Caer. Dedfrydwyd y tri i 84 diwrnod yng ngharchar Chelmsford heb lafur caled.

Mae'r trydydd ymgais lawer llai anturus oherwydd bu iddynt dyllu twnel cul 8 troedfedd o ddyfnder gan gychwyn o'r seler. Ond darganfuwyd eu twnel rhyw lathen cyn cyrraedd y coed llawryf. Pe bai'r rhain wedi llwyddo, mi fyddai'r carchar yn wag erbyn y bore!!

Cafwyd ocsiwn yno wedi i'r Almaenwyr adael ar ddiwedd y Rhyfel Mawr. Gwerthwyd cytiau y milwyr Prydeinig, y weiar bigog i ffermwr lleol a fferm Plas Newydd i Robert Roberts, Plas Isa, Bryn Rhyd-yr-arian a gwerthwyd y cerrig"Ashler" i Eglwys Gadeiriol, Lanelwy. Bu llawer wedyn o ffermwyr yr ardal yn helpu eu hunain i weddill y cerrig ac o dipyn i beth, aeth y plasdy yn adfail digon trist yr olwg.



Yr Almaenwyr ar y Weirglodd

Bu Plasdy Dyffryn Aled yn furddun ers y 30au. ac yn 1967 adeiladodd un o feibion y teulu Bibby ei fwthyn hardd ar yr union safle a dyna'r tŷ sydd yno heddiw.

Llywyddwyd gan Gwyrfai Jones ac ef a dalodd y diolchiadau. Hefyd croesawyd Ann, gwraig Berwyn i'n plith a dymunwyd yn dda i Ednyfed Williams ar ddiwrnod ei ben-blwydd.

Cafwyd ymateb gwych gan y gynulleidfa yn dilyn y sgwrs gyda sawl aelod yn gyfarwydd â'r ardal dan sylw. Roedd hanes y plasdy a'r carcharorion mor ddiddorol ac i feddwl nad oedd fawr o gyswllt rhwng y carcharorion a'r gymuned leol! Noson i'w chofio yn wir! Rhaid ymweld â'r ardal!




Dyffryn Aled

sir ddinbych
denbighshire
County Council
CYMRAEG

Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

## MERCHED Y WAWR, DINBYCH a'r CYLCH

Yn dilyn y dathliadau Nadolig yn y Bod Erw yn Llanelwy ym mis Rhagfyr, dechreuwyd y flwyddyn newydd dan Lywyddiaeth Nerys a dymunodd Blwyddyn Newydd dda i bob un ohonom. Fe ddwedodd Nerys fod y pnawn o Llith a Charol a gynhalwyd yng Nghorwen ar ddechrau Mis Rhagfyr wedi gwneud elw o £290 a oedd yn cael ei gyflwyno i gartref Cysgod y Gaer yng Nghorwen.

Noson gartrefol yn Festri Capel y Fron a gafwyd ym mis Ionawr pan estynwyd croeso i Olwen Cottle atom i sôn am hanes ei mab sy'n gweithio fel meddyg ar Ynys St Helena. Clywsom mai ynys yn ne Môr Iwerydd – neu hytrach darn o graig yn mesur 10 milltir wrth 6 milltir o hyd yw'r ardal hynod yma. Clywsom fod rhaid iddi fod yn wirioneddol drefnus wrth drefnu teithio i'r ynys i ymweld â Rhys gan nad oes taith uniongyrchol i'r ynys. Mae'n cymryd 6 diwrnod i gyrraedd y tir mawr oherwydd ei bod mor anghysbell, a dim ond llong yn teithio o'r tir mawr i'r ynys bob tair wythnos, yn cario nwyddau a theithwyr i'r ynys. Dim piciad i Morrisons neu Home Bargains yma!! Dydi'r cysylltiad ffôn ddim yn wych yno chwaith, a does neb yn aros ar yr ynys i ymddeol. Maent yn symud i fyw i'r tir mawr i wneud hynny. Nid oes neb yn cael gweithio ar yr ynys onibai fod ganddynt gyfeiriad i'w cartref mewn gwlad arall.

Gwelsom trwy gyfrwng sleidiau, olygfeydd godidog o'r ynys, o'r arfordir i mewn i'r tir mawr, a hefyd y pentrefi bychan o gwmpas. Diolch Olwen am noson ddiddorol iawn.

Ar Chwefror 6ed, cawsom noson yng nghwmni'r dysgwyr. Roedd Elizabeth, Mari ac Annwen wedi trefnu'r noson gan ddefnyddio'r gemau sy'n cael eu chwarae yn y gemau rhanbarth a chenedlaethol. Llywyddwyd y noson gan Mair Spencer a hi estynnodd groeso i'r tair dysgwraig oedd wedi ymuno hefo ni ar gyfer y noson, a chawsant hwyl yn cymryd rhan yn chwarae sgrabl, bowls, dewis dau ddwrn a dominos. Roedd rhai o'r aelodau oedd yn chwarae dominos yn chwarae o ddifrif ac yn dawel…………ond roedd y timau oedd yn chwarae dewis dau ddwrn dipyn mwy swnllyd. Nai ddeud dim mwy!

Mis nesa, byddwn yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant ym Melin Brwcws ar Fawrth 6ed

## Cymdeithas Hanes Ardal Dinbych

'Organ Bellamy' oedd testun sgwrs Mrs Alice Ward o Gaerwys yng nghyfarfod mis Ionawr.

Adeiladwyd organ Eglwys Mihangel Sant, Caerwys gan John Bellamy o Ddinbych yn 1910. Cost adeiladu'r organ, pulpud a gorchudd i'r fedyddfaen oedd £320 gyda £125 yn dod gan Andrew Carnegie, y dyngarwr mawr. Cyfrannodd arian at adeiladu 32 o organau newydd mewn eglwysi yng Nghymru a 7,689 ar draws y byd!

Beth am John Bellamy? Erbyn 1884, roedd wedi symud o Swydd Stafford i 57 Stryd y Dyffryn, Dinbych ac wedi agor siop yno yn gwerthu offerynnau cerdd megis y ffidil a'r gitar, yn cynnig adeiladu organau a phianos ac yn hysbysebu tiwnio pianos. Roedd ei weithdy lle mae Garej y Ffowndri heddiw.

Pam symudodd i Ddinbych? Yma yn Ninbych roedd Thomas Casson yn byw ac yntau hefyd yn adeiladu organau. Daeth John Bellamy yn 'fforman' iddo a bu'r ddau'n cydweithio cyn iddynt fynd eu ffyrdd eu hunain a dod â'r bartneriaeth i ben yn ddiweddarach. Symudodd Casson i Lundain gan adael John Bellamy yn Ninbych i adeiladu ei organau.

Adeiladodd sawl organ yn lleol gan gynnwys un yn Eglwys Wen yn 1885 ac un yng Nghapel Lôn Swan yn 1891.

Roedd yn uchel ei barch yn y gymuned leol ac yn ei flynyddoedd olaf

arbenigodd mewn hen ddodrefn gan allforio eitemau i U.D.A. Teithiodd yn helaeth.

Bu farw yn 1919 bron yn 80 oed ond parhaodd y busnes yn nwylo'i feibion, Alexander a Harry Bellamy.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Richard Snelson a dalodd deyrnged i'r diweddar Ddr. Gwyn Thomas a fu'n aelod selog o'r Gymdeithas Hanes. Talwyd y diolchiadau gan Gwyrfai Jones.

Cawsom sgwrs addysgiadol a diddorol gan Mrs Alice Ward gyda llawer o gysylltiadau lleol i ni yn Ninbych yn ei sgwrs. Mae Mrs Alice Ward yn aelod yn Eglwys Mihangel Sant, Caerwys ac roedd aelodau eraill yn bresennol yn y cyfarfod gan gynnwys ei gŵr, Roland Ward a'r organydd presennol. Noson i'w chofio!

O.N. Cofia Janet Evans, y Ffowndri, ei mam, Mrs. Brenda Roberts, yn cael gwersi piano gan Alex Bellamy a Gwyn, Hafod Elwy, brynodd dŷ Alex Bellamy yn Ffordd Rhuthun yn dilyn marwolaeth Alex Bellamy yn 1963.







Siop John Bellamy

**DBP HOME IMPROVEMENTS LTD**
*Ystad Ddiwydiannol Colomendy*
*Dinbych*
*LL16 5TA*
*Tel: 01745 818849*
*Fax: 01745 817267*
*enquiry@dbpltd.co.uk*
*www.dbpltd.co.uk*

DBP
HOME IMPROVEMENTS
Improving Homes Since 2004



Ystafelloedd Arddangos ar Agor Chwe Diwrnod yr Wythnos

# AM GAEL YSTAFELL NEWYDD?







YDY'CH YSTAFELL WYDR YN HEN AC WEDI BLINO?

YDY HI'N TEIMLO'N OER?

YDYCH CHI'N COLLI LLAWER O WRES DRWY EICH TO PRESENNOL?

HOFFECH CHI EI GWNEUD YN FWY CYDNAWS Â'CH TŶ CHI?

Cyllid ar gael







***Ffenestri, drysau, ystafelloedd gwydr, "Roofline" a llawer mwy***

**Galwch & gofynnwch am Mike Hargraves ar 01745 818849 neu ar ei ffôn symudol**

**07778 752822**

I GAEL PRIS YN RHAD AC AM DDIM, HEB RWYMEDIGAETH.

NEU GALWCH I MEWN I WELD MIKE YN EIN YSTAFELL ARDDANGOS

## TŶ CROESO DAWN ELIZABETH

Mae Alice, Gwenan a Mair o Ddinbych yn gwirfoddoli efo Tŷ Croeso ond mae angen mwy o wirfoddolwyr. Be wyddom am Dŷ Croeso Dawn Elizabeth?

Mae Tŷ Croeso ar dir Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ac yn cynnwys chwech o ystafelloedd cysgu, cegin, lolfa ac ystafell i olchi dillad . Mae'n darparu llety dros dro i rieni, gofalwyr a theuluoedd babanod a phlant gwael eu hiechyd sydd wedi cael eu derbyn i'r wardiau pediatrig yn yr ysbyty. Hefyd mae yno ardd fechan i eistedd y tu allan.

Mae teuluoedd y cleifion oncoleg pediatrig sy'n dod i Ysbyty Glan Clwyd yn rheolaidd yn defnyddio'r cyfleusterau yn Nhŷ Croeso pryd bynnag maent yn yr ysbyty ac mae croeso iddynt gyfarfod â pherthnasau neu'r staff meddygol yn ystafell fyw Tŷ Croeso os teimlir ei fod yn fwy priodol na'r ward.

Adeiladwyd Tŷ Croeso yn 1993 gan ddefnyddio arian gan sefydliadau elusennol, y gymuned leol a chyfraniad mawr gan rieni merch o'r enw Dawn Elizabeth Williams a fu farw'n 25 oed yn dilyn damwain ffordd. Mae'r tŷ wedi ei enwi er cof am Dawn Elizabeth – Tŷ Croeso Dawn Elizabeth yw enw llawn y tŷ.

Mae gan Ysbyty Glan Clwyd Uned Gofal Arbennig i fabanod o Ogledd Cymru a thu hwnt ac mae teuluoedd o gryn bellter yn aros yn Nhŷ Croeso pan fydd eu babanod yn cael eu hanfon i'r uned am ofal hanfodol. Mae rhai o'r teuluoedd hyn yn aros yn Nhŷ Croeso am nifer o wythnosau ac mae Tŷ Croeso yn cynnig yr holl gyfleusterau y byddai ganddynt yn eu cartrefi eu hunain.

Cyflogir dwy yn rhan amser yn ystod yr wythnos yn Nhŷ Croeso ac ar benwythnosau, mae tîm o wirfoddolwyr yn gofalu fod y Tŷ yn cael ei redeg yn hwylus ac yn gofalu fod y preswylwyr yn gyfforddus.

Oherwydd bod ariannu Tŷ Croeso yn dibynnu ar roddion gan y cyhoedd, mae'r gwirfoddolwyr yn trefnu amrywiol o weithgareddau fel boreau coffi a chyngherddau. Hefyd mae stondin yn Ysbyty Glan Clwyd tua unwaith y mis yn cael ei redeg gan y tîm.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r gwirfoddolwyr neu helpu mewn unrhyw ffordd arall, cysylltwch ag Ann Jones ar 01492512155 neu â Helen Coles ar 07885700851.

# Pwy sy'n gwisgo'r Goron?

Cawsom noson fendigedig yn ddiweddar yn 'Y Gymdeithas Gymraeg' – noson hwyliog a chartrefol dan y teitl 'Coron/Coronau' yng ngofal medrus Nerys Ann Roberts a braf oedd croesawu dysgwyr a ffrindiau i'r cyfarfod. Cyfansoddodd Arwel Emlyn gerdd ar gyfer yr achlysur. Dyma hi:-

Pwy sy'n gwisgo'r Goron?

Coron fach neu Goron fawr
pwy sy'n ei gwisgo hi yn awr?
Coron ddrud neu goron rad
Coron Mam, coron fy Nhad.
Coron fwy neu coron lai
Coron Awst neu goron Mai,
Coron Llywelyn Fawr ynghynt
Coron gollwyd ar y gwynt,
Coron gollwyd ymysg y dail
Coron Brenhines Elisabeth yr ail
Coron gormeswyr mwya'r byd
Coron maddau'r camweddau i gyd,
Coron ddrwg neu goron dda
Coron Ie, coron Na,
Coron cymdeithas, coron dysg,
Coron pobun yn ein mysg,
Coron o haul ar foelydd hardd
Coron llên a choron bardd,
Coron heddiw, coron ddoe
Coron ennill unrhyw sioe.
Coron yr Urdd dauddeg dauddeg
Coron am ennill chwarae teg.
Coron rygbi sy'n rhoi boddhad
Coron driphlyg Cymru'n gwlad.
Coron geir am'glatchio bant'
Coron er mwyn achub dant!
Coron gain a choron fwyn
Coron sydd yn werth ei dwyn!
Coron y nos, coron y dydd
Coron am beidio colli ffydd.
Coron fudur, coron lân
Coron am y manion mân.
Coron am godi gyda'r wawr
Coron pan eith yr haul i lawr.
Coron dechrau a diwedd oes
Coron un sy'n cario'r groes.
Coron aur a choron ddrain
pwy sy'n mesur pwysau'r rhain?
Coron marw, coron byw,
Coron Iesu, Mab i Dduw.
Coron aur neu goron bren
Gwisgwch goron am eich pen.

Arwel Emlyn

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

## CYMDEITHAS JOHN GWILYM JONES

Cynhyrchiad blynyddol Cymdeithas John Gwilym Jones sef cymdeithas lên Prifysgol Bangor fydd un o ddramâu John Gwilym Jones ei hun, Ac Eto Nid Myfi. Caiff ei llwyfannu yn Stiwdio Pontio am 7:00yh ar y 15fed o Fawrth eleni. Mae tocynnau'n £5 i'w cae lgan Pontio drwy ffonio neu ar y we.

# TEYRNGED I ARFON EVANS



Ganwyd Arfon yn Inffirmari Dinbych ar 15fed Rhagfyr 1935, yn blentyn i Huw a Heulwen Evans, Ty'n Bedw, Brynrhydyrarian. Roedd yn un o bedwar o blant ac yn frawd annwyl i Beryl, Berwyn a Brynle. Pan yn hogyn bach byddai'n mynd i Gapel Horeb. Mynychodd Ysgol Llansannan ac yna aeth ymlaen i Ysgol Uwchradd Dinbych.

Pan oedd yn bymtheg oed, symudodd y teulu i Lansannan, ac yna ar ôl gadael yr ysgol, aeth i weithio i Fferm Plas Ucha, Llannefydd - ac Arfon Plas oedd o i bawb oedd yn ei adnabod.

Yn ogystal ag ymddiddori yn y byd amaethyddol, roedd Arfon yn hoffi mabolgampau, a phan yn ifanc byddai'n cystadlu yn y ras filltir. Roedd yn dipyn o redwr a dweud y lleia (Ussain Bolt ei amser), Tra roedd cystadleuwyr eraill wedi eu gwisgo mewn dillad rhedeg go iawn, byddai Arfon yn troi fyny yn ei drwsus gwaith ac yn rolio'r coesau i fyny - ac yn aml iawn yn rhedeg yn nhraed ei sanau! Ond byddai'n eu curo i gyd, ac enillodd lawer o gwpanau a medalau wrth gystadlu mewn mabolgampau lleol.

Cyfarfu â Nansi yn 1959 a priodwyd hwy ar 25ain Mawrth 1961 yng Nghapel Henllan. Ymgartrefodd y ddau yn Nhrewen, Dinbych a chawsant dri o blant, Helen, Marian ac Alun. Roedd yn dad clên a chariadus, a byddai wrth ei fodd yn mynd ar wyliau gyda'r teulu i'r garafan yn Sir Fôn - cael hwyl efo'r plant yn chware pêl droed a mynd am dro ar lan y môr.

Bu'n dreifio lori i R. L. Jones ac i gwmni Mars Jones am flynyddoedd lawer cyn mynd ymlaen i brynu lori a rhedeg busnes ei hun yn cario bwyd gwartheg i ffermydd. Yna, ar ôl gwerthu'r lori, bu'n gweithio efo cwmni Cambrian, Rhuthun, hyd at ei ymddeoliad.

Roedd Arfon yn weithiwr da ac yn hynod o grefftus - doedd o ddim yn un am segura. Pan yn hogyn ysgol mi fyddai'n mynd o gwmpas y ffermydd yn ystod gwyliau'r haf yn trin swêj yn y caeau a gwneud jobsys tebyg, a cael ychydig o bres poced am ei waith. A hyd yn oed wedi iddo ymddeol mi fyddai'n helpu John, ei frawd yng nghyfraith, ac Alun y mab, gyda gwaith adeiladu, a bu hefyd yn gweithio yn Llaeth y Llan. Roedd Arfon yn gallu troi ei law at unrhyw beth. Roedd cadw ei hun yn brysur yn hanfodol i Arfon - doedd o byth yn gallu eistedd yn llonydd! Os fyddai unrhywun angen help, roedd o yno yn syth - yn barod ei gymwynas bob amser ac yn falch o fedru helpu.

Pan oedd yn 75 mlwydd oed fe brynodd fotobeic! Roedd ganddo drwydded ers pan yn hogyn ifanc ond doedd o heb fod ar gefn motobeic ers blynyddoedd lawer. Yr hyn sbardunodd nid yn unig y motobeic, ond efallai hefyd yr hen awch gystadleuol ynddo, oedd fod Alun, Sion a Carwyn newydd basio eu prawf motobeic. Roedd yn rhaid i Taid gael dangos i'r hogie sut oedd reidio motobeic yn go iawn!! Fe brynodd fotobeic 125, y 'leathers' a'r cwbwl, a ffwrdd â fo un prynhawn Sadwrn braf i fyny am Lansannan a Rhyd y Bedd. Roedd Nansi a'r genethod yn poeni eu henaid, ond roedd y wên ar ei wyneb pan ddaeth yn ôl adre yn werth ei gweld!

Roedd Arfon yn dad a thad yng nghyfraith arbennig i Helen, Marian ac Alun, Dilwyn, Geraint ac Andrea; ac yn Daid balch iawn i Sion a Dee, Lois a Danny, Carwyn ac Erin, Euron a Sarah, Faye a Luke, Bethany ac Aled, Stacey a Kelly. Roedd hefyd yn Hen Daid annwyl iawn i Nikolai, Esmee, Ronnie, Evie ac Indie, ac yn ffrind hoffus i Jess, ffrind i'r teulu.

Mae'r teulu wedi cynyddu tipyn dros y blynyddoedd, ac roedd ganddo feddwl y byd o'r plant i gyd – a'r anifeiliaid anwes hefyd! Daeth y plant â llawenydd di-ben-draw iddo. Roedd wrth ei fodd yn eu mysg - yn gwrando ar eu storïau ac yn herian, ac yn dweud ei storïau ei hun. Roeddynt hwythau, yr un modd, wrth eu bodd yn ei gwmni ef, a bydd ganddynt lawer o atgofion arbennig i'w trysori am byth.

Rydym fel teulu yn hynod o ddiolchgar am bob arwydd o gydymdeimlad yr ydym wedi ei dderbyn yn ein colled, ac yn ddiolchgar hefyd i'r nyrsys a'r meddygon yn Ysbyty Glan Clwyd, ac i'r meddygon a'r staff ym Meddygfa Beech House am eu gofal caredig o Arfon.

Diolch am bopeth Arfon. Rwyt wedi bod yn ðr da i mi. Cysga'n dawel a gwyn dy fyd. Nansi x

Mawrth 30ain
Bore Goffi
yn Eirianfa
10-12
MENCAP
Dinbych a Rhuthun



# Teyrnged i Anwen Hughes Williams



Cafodd Anwen ei geni yn Ysbyty Rhuthun ar Fehefin 10fed, 1933 – yn rhyfedd ddigon, ar ddiwrnod pen blwydd ei mam. Treuliodd yr wyth mlynedd cyntaf yn fferm Tŷ Mawr, Morfudd, Carrog, ger Corwen, gyda'i thad a'i mam, Ted ac Eirwen Jones, a'i chwaer hynaf Gwenfron, ei brawd Bryner, a'i chwaer iau, Ella.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd symudodd y teulu i fyw yng Nghaerfyrddin yn Ne Cymru. Roedd bywyd tref yn hollol wahanol i'w bywyd cynt ar y fferm – doedd yna ddim buwch, dafad, na chi o'i chwmpas bellach! Ond roedd Anwen wrth ei bodd yno am fod digon o gyfle iddi ddarllen. Naw oed oedd hi ar y pryd, ond roedd hi'n darllen popeth a welai! Roedd hyn yn ddechrau ar ddiddordeb a barodd drwy ei hoes – roedd llyfr wrthlaw ganddi bob amser hyd y diwedd. 'Bookworm' – dyna'r gair i'w disgrifio hi! Roedd hefyd wrth ei bodd yn gwneud posau a chroeseiriau.

Wedi i'r rhyfel ddod i ben, symudodd y teulu yn ôl i'r gogledd, a setlodd y teulu yn Bryn Bedw, Llangynhafal. Ar ôl pasio'r 'sgolarship' yn Ysgol Gellifor, aeth i'r 'County School' yn Rhuthun, ac aros yno nes iddi wneud y lefel A.

Cafodd waith wedyn yn y County Offices yn Rhuthun, yn yr Adran Addysg a chyflogau athrawon. Byddai hi'n mynd i'w gwaith ar ei beic bob dydd, beth bynnag oedd y tywydd.

Yn 1955 symudodd y teulu i'r Ganllwyd ger Dolgellau. Bu'n gweithio yn swyddfa'r NFU yn Nolgellau am gyfnod, a thrwy hynny, daeth i adnabod llawer o ffermwyr Sir Feirionydd. Yn 1963 bu farw ei thad, felly daeth yn ôl i fyw yn Sir Ddinbych. Cafodd waith eto yn Swyddfa'r Sir yn Rhuthun, ac yno cyfarfu â'i gŵr Trefor. Yn 1973, ganed eu merch fach annwyl, Anita. Pan aeth Anita i'r ysgol, aeth Anwen i weithio fel ysgrifenyddes yn Ysgol y Parc, yn Ninbych. Bu yno tan iddi ymddeol.

Cafodd Anwen fywyd llawn a hapus, ond fe wynebodd sawl adeg anodd a sawl her ar y ffordd. Yn 1992, cafodd strôc fawr, ac roedd hyn wedi ei chaethiwo hi dipyn. Bu rhaid iddi ddysgu i siarad a cherdded eto. Ond doedd hi byth yn cwyno na'n torri'i chalon, ac fe benderfynodd wneud y gore i gario mlaen gyda phethau – i ddyfalbarhau – gyda help Trefor ac Anita. Ond daeth anffawd fawr arall i'w rhan mewn cwta dwy flynedd, pan fu Trefor farw yn sydyn iawn. Roedd Anita'n ifanc ar y pryd, ond fe fu hi'n gysur mawr ac yn gefn i'w mam. Fe fu Anita'n hynod ofalus o'i mam hyd y diwedd.

Roedd Anwen yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Fron, nid yn unig ar y Sul ond yn yr holl gyfarfodydd eraill. Byddai'n mynychu'r Seiat ar Nos Lun yn gyson, a byddai'n cymryd rhan yn aml. Fe fu hefyd yn athrawes Ysgol Sul am rai blynyddoedd. Roedd cyd-addoli a bod yn rhan o fywyd y capel yn bwysig iawn iddi. Bu'n drysorydd y W.I. yn Ninbych, ac roedd wrth ei bodd yn mynychu Theatr Twm o'r Nant.

Roedd yn mynychu'r cinio yng Nghapel y Waen bob wythnos, hefyd Derby a Joan ar Ddydd Llun. Roedd hi'n wirioneddol ddiolchgar i bawb oedd yn ei helpu i gyrraedd y lleoedd hyn.

Daeth hapusrwydd mawr i'w bywyd hi pan gyfarfu Anita â Dave rhyw 9 mlynedd yn ôl. Symudodd Dave i fyw gyda nhw, a daeth dau ŵyr bach yn y man, sef Aaron a Gethin. Er nad oedd Anwen yn medru eu nyrsio, roedd hi'n Nain hynod falch, ac roedd hi'n meddwl y byd o'r ddau. Roedd hi wrth ei bodd yn eistedd ac yn eu gweld nhw'n chware – ac roedd hi'n morio chwerthin yn eu canol.


Roedd Anwen yn wraig alluog, feddylgar a diwyd. Mae'n siŵr y byddai'r teulu a phawb o'i ffrindiau yma heddiw yn gallu dweud fel hyn amdani - fe gafodd hi lawer o lawenydd yn ei bywyd, ond ei siar o adegau anodd hefyd. Er popeth, roedd hi'n dyfalbarhau – yn cario mlaen i fynd, a gwên ar ei hwyneb, heb gwyno. Fe fydd yna hiraeth ar ei hôl.

Y TEULU

## CWMNI BARA CAWS - 'COSTA BYW'

Mi fydd cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws – 'COSTA BYW' yn teithio cymunedau'r Gogledd o Fawrth 26 hyd at Nos Sadwrn Ebrill 13.

Mae 'COSTA BYW' wedi cael ei hysgrifennu gan dri awdur ifanc – Mari Elen, Mared Llywelyn a Llyr Titus. Mi fydd cyfle i drigolion y de weld y ddrama yn Neuadd Gymuned Llanrwst yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst fis Awst eleni.



# Colli Cyfaill



Wel, dyna ni wedi colli un arall o gymeriadau'r dref, sef y diweddar Dr. Gwyn Thomas. Erbyn hyn, mae sawl teyrnged wedi ei thalu iddo, ond fel un oedd yn ei adnabod o'i fachgendod, hoffwn gyfeirio at un neu ddau o'i nodweddion nad oeddynt efallai yn amlwg i'r mwyafrif ohonoch.

Ganwyd Gwyn ym Mrynffynnon, tŷ sylweddol ei faint ar Stryd y Bont, dim ond tafliad carreg ar draws Pwll y Grawys o'r Ysgol Genedlaethol. Cyrhaeddais i'r byd yn Stryd Henllan, Rhif 18, tua'r un pellter o'r ysgol ond i'r cyfeiriad arall. I'r ysgol hon aeth y mwyafrif o blant yr ardal ond aeth Gwyn i ysgol gynradd breifat, Fairholme, felly nid oeddwn yn ei adnabod yn iawn nes i'r ddau ohonom gyrraedd 'Y Cownti', sef yr ysgol sirol. Ar ddiwedd ein hamser yn yr ysgol eilradd, bu rhaid i'r ddau ohonom ymuno â'r Awyrlu - gwasanaeth cenedlaethol - ac yn dilyn hynny, aeth Gwyn i'r Coleg Meddygol yng Nghaerdydd a minnau i Goleg Hyfforddi Caerfyrddin.

Ar derfyn ei gwrs, ac yn ôl y disgwyl, daeth Gwyn yn ôl i Ddinbych i ddilyn ei dad yn y practis meddygol, a minnau, wedi cyfnod byr o ddysgu yn ninas Lerpwl, deuthum yn aelod o staff fy hen ysgol ym Mhwll y Grawys.

Ychydig welais i o Gwyn yn gymdeithasol wedi hynny, yntau mor brysur yn ei waith ac yno yr arhosodd, yn uchel iawn ei barch, weddill ei yrfa, ac yn arbennig am fod ei wraig, yr annwyl Mari, yn gefn iddo. Eto i gyd, fe lwyddodd i fynychu cyfarfodydd Y Gymdeithas Hanes Leol ac yr oedd yn ffyddlon iawn i weithgareddau'r Gymdeithas Gymraeg.

Flynyddoedd wedyn, wedi i'r ddau ohonom ymddeol, arferai Gwyn fy ffonio yn aml, weithiau bedair neu bum gwaith y dydd. Yn ystod pum mlynedd olaf ei fywyd, ac yntau erbyn hyn wedi colli cefnogaeth Mari, ac o achos afiechyd, a mwy neu lai yn gaeth i'w gartref yn Ystrad Isa, ffoniai yn amlach fyth. O'm safbwynt i, 'doedd hyn ddim yn gyfleus bob amser. Erbyn hyn, 'roedd ei ddiddordeb yn ein hanes lleol wedi datblygu'n sylweddol ac 'roedd yr angen am wybodaeth am gefndiroedd ei gyn-gleifion yn ardal dlotaf y dref, ac yn arbennig Stryd Henllan, yn amlwg. Gan fy mod innau wedi fy ngeni a'm magu yno ac yn gyfarwydd iawn â'i thrigolion, ei chymeriadau a'u harferion ynghyd â'u traddodiadau, yr oedd ymholiadau Gwyn yn ddiddiwedd. Pwy oedd Jac y Bîg a phwy oedd ei blant? Pwy oedd Nel Mangl a Florrie Crosby? Pwy oedd yn berchen ar Y Tŷ Lojin a phwy oedd yn aros yno? Cwestiynau di-rif am addoldai'r stryd - Capel Seion, Y Bedyddwyr, ac Eglwys fach Sant Iago a'r siopau - Siop Jonah, Siop Bird, Siop Bartley, Siop Ifan Dodge; Siop Harold, Siop Mary Hughes, Siop Dei Cotton, Siop y Brodyr Williams, a phob un, arwahan i hen siop Harold, wedi cau erbyn hyn.

Yn ôl y disgwyl, gyda chymaint bryd hynny yn ddi-waith a chyflogau'n isel, 'roedd safon byw yn isel gyda phrydau bwyd o frywes a lobsgows yn boblogaidd, ac wrth gwrs, ffrwythau'r campau potsio. Awchai Gwyn am glywed ac ail glywed y storïau ynglŷn â meddwdod, diweithdra, paffio ac yn y blaen. Yr oedd ganddo ddiddordeb arbennig yn hanesion potsio - llawer o drigolion y Stryd yn ddibynnol ar gigoedd y cwningod, yr ysgyfarnogod a'r ffesantod. Hoffai glywed am yr ysgarmesoedd rhwng y potsiars a chiperiaid Gwaenynog, Plas Heaton, Y Garn a stadau eraill dalgylch Dinbych. Yn wir, credaf y byddai Gwyn wrth ei fodd yn dilyn yr hen gymeriadau hyn ar eu hanturiaethau.

Diddordeb arall oedd ganddo, gan mae'n debyg nad oedd ef erioed wedi cael cymysgu gyda phlant Stryd Henllan, oedd y gemau oedd yn boblogaidd yno. Hyn wrth gwrs ymhell cyn oes y teledu a'r cyfrifiadur. Rhaid cofio hefyd fod y stryd yn llawer mwy diogel bryd hynny - gymaint llai o foduron a mwy o geffylau a throliau. Gyda llaw un o'n diddordebau pennaf oedd hongian wrth gefn y drol o'r pen uchaf i'r Stryd hyd Bwll y Grawys. Gemau'r genod oedd sgipio, hopscotch, chwarae tŷ a mwytho doliau tra 'roedd y bechgyn yn hoffi fflicio cardiau sigarét, chwarae marblis, pêl-droed wrth gwrs a concars (wedi cofio eu caledu yn y popty ymlaen llaw). Arferiad arall gan y plant oedd dysgu a chanu rhigymau digri. Yn sicr 'roedd agor Cae Hywel yn ystod y tridegau yn fendith amhrisiadwy i'r gymuned leol.

Digwyddiad arall sydd wedi marw allan yw pobi a'i grasu ym mhopty cyhoeddus Dei Cotton ar waelod y stryd. Y dynion oedd yn cludo'r tuniau yno ar eu ffordd i'r Hand tra 'roedd y bechgyn yn eu nôl trannoeth. Anaml y byddai'r dorth yn cyrraedd y tŷ heb fod â'i chornel wedi ei phigo.

Agwedd o'n bywyd ni, yn arbennig ar nosweithiau Gwener a Sadwrn (rhaid cofio nad oedd y tafarnau ar agor ar y Sul bryd hynny), oedd aros yn effro yn ein gwlâu, gyda ffenestr llofft ar agor, i fwynhau meddwon yn canu emynau ar eu ffordd adref, wedi mwynhau boliad o gwrw. Dwfi Pritchard druan oedd un ohonynt, yntau wedi colli un goes mewn damwain. Gan fod nifer sylweddol o fechgyn y Stryd wedi'u lladd neu'u clwyfo yn ystod y ddau ryfel byd, hawdd yw deall sut y cafodd yr enw, 'Stryd y Gwaed'. Amserol yn y fan hyn yw i mi eich atgoffa fod tad Gwyn wedi derbyn Y Groes Filitaraidd (Y M.C.) am ddewrder yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Dyna mae'n siŵr paham fod Gwyn yn hoffi fy holi ynglŷn â'r cyn filwyr.

Serch y tlodi a'r diweithdra, ardal llawn cymwynasgarwch oedd Stryd Henllan a hyn yn amlwg yn dilyn marwolaeth, selni difrifol neu unrhyw argyfwng tebyg - yr arian, fesul ceiniog gan amlaf, yn llifo i mewn. Yn ôl y disgwyl, cofiwch, yr oedd ambell ffrwgwd yn datblygu ond anaml yr oedd plismon yn mentro yno heb fod yno o leiaf ddau ohonynt gyda'i gilydd.

Pan ddaeth Gwyn i etifeddu'r practis gan ei dad, yr oedd eisoes wedi datblygu'r doniau oedd eu hangen ar gyfer ei gleifion ac yn sicr, bydd yr enw Doctor J.G. Thomas yn parhau yn y dref am flynyddoedd.

Yn sicr byddai Gwyn wedi ymfalchïo cael bod yn un o hogiau'r Stryd a chael y cyfle i ddal pen ceffyl yn ffair y Smithfield am geiniog, i ddysgu nofio yn noethlymun yn Y Lawnt, ac i gasglu madarch yn Y Crest, ond nid efallai i flasu'r wialen fedw oedd yn crogi'n fygythiol ar hoelen ymhob cartref.

Heddwch i'w lwch.

R M (Bobi) Owen

# AMGUEDDFA RADIO

Gwefr heb Wifrau

Dilynwch ni ar

'Darlledu Digidol Cymunedol' oedd teitl darlith gyntaf Amgueddfa Gwefr heb Wifrau yn 2019 a chafwyd darlith ysbrydoledig gan Selwyn Williams a Ceri Cunnington o BROcast Ffestiniog. Llwyfan cyfryngau cymunedol ym Mlaenau Ffestiniog a'r Fro yw BROcast a sefydlwyd ar ôl ymweld â Radio Beca yn Felinfach, Ceredigion. Mae'n defnyddio'r We, Google, YouTube, Facebook, Twitter ac ati at ddibenion cymdeithasol, cymunedol, er mwyn galluogi lleisiau lleol i gyfathrebu â'i gilydd. Dathlu cymunedau yw'r bwriad, yn ogystal â rhannu syniadau am yr heriau sy'n bodoli mewn cymunedau gwledig, ac ysbrydoli adfywiad cymdeithasol ac economaidd. Mae'r rhan fwyaf o gynnyrch BROcast Ffestiniog ar hyn o bryd yn cynnwys fideos am bynciau sydd o ddiddordeb lleol ac sy'n hyrwyddo'r fro, pynciau am unigolion a chymdeithasau. Mae'r mwyafrif ohonynt yn Gymraeg, gydag isdeitlau. Dangoswyd nifer o'r ffilmiau hyn yn ystod y sgwrs a chafwyd ymateb brwdfrydig iawn gan y gynulleidfa. Cawsom gipolwg ar be' sy'n bosib i'w wneud pan fydd cymuned yn gweithio gyda'i gilydd.






Joan Santana a Selwyn Williams

Dyma'r darlithiau nesaf yn ein cyfres ar nos Wener yn yr Amgueddfa am 7.00 y.h.:
Mawrth 15fed, bydd Siaradwyr o StudioMADE, yn cyflwyno Darlith Goffa David Edward Hughes ac yn siarad am 'Celf, Gwyddoniaeth a Thechnoleg'.
Ebrill 5ed, Christopher Lees yn siarad am "Anelu at y Ddinas – yn dilyn hanes Swyddog Radio a Llong Almaenig o'r Rhyfel Byd Cyntaf".
Mai 17eg, Sue Clark yn siarad am "Golygu a Thrin Ffotograffiaeth".
Bydd ein Cyfarfod Blynyddol ar Fawrth 15fed, am 6.00 y.h.
Croeso cynnes i bawb.



Dim ond nifer fechan o bobl a lwyddodd i gyrraedd ein Noson Gwis ddiweddaraf, oherwydd y rhew a'r eira. Er hynny, cafwyd noson hwyliog iawn, gyda phaned a bara brith, a chafodd pawb wobr i'w fwynhau gartre.



Dyma lun o waith a wnaethpwyd yn y Bore Crefftau.




Mae'r Amgueddfa newydd brynu dwy falf Osram N30 ar Ebay. Mae'r falfiau anghyffredin hyn yn rhan o gyfres o falfiau a gyflwynwyd gan Osram yn y 1930au. Roedden nhw'n hawdd i'w cadw yn oer ac felly yn sefydlog iawn, ond oherwydd nad oeddent yn gallu addasu i'r newidiadau ym myd technoleg radio daethant i ben.

CEIR CLWYDIAN
Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol
yna, galwch i'n gweld ar-
FFORDD RHYL, DINBYCH
neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009


# Ble yn y dre? Atebion tudalen ganol




1



2




3




4




5




6

Jones & Graham

45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH

CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES

Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim

Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg

01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

## Dathlu Degawd

Roedd Siop Goffi Ji-Binc yn dathlu deg mlynedd y llynedd. Cychwynnais y fenter o agor siop goffi yn Ninbych ddeng mlynedd yn ôl. Lle mae'r amser wedi mynd...?

Penderfynais gychwyn busnes fy hun tra roeddwn yn gweithio fel gofalwraig iechyd yn Ysbyty Orthopaedig Abergele. Roeddwn wedi pasio fy neg-ar-hugain oed ac yn meddwl mod i angen gwneud rhywbeth, felly roedd rhaid penderfynu unai gwneud cwrs tair blynedd o nyrsio, neu rywbeth hollol wahanol. Er fy mod wedi gweithio yn y maes arlwyo ers yn 14eg oed - gweithio mewn tafarndai a chaffis lleol, wnes i erioed feddwl y buaswn yn berchennog ar fusnes fy hun rhyw ddiwrnod. Ond daeth cyfle 'chydig dros ddwy flynedd yn ôl, i brynu'r adeilad cyfan, ac wedi i mi gael caniatâd gan y Cyngor Sir, adnewyddu'r safle a chreu dau fflat sengl uwchben y caffi.

I'r rhai ohonoch sydd yn gyfarwydd â Ji-Binc - Siop Goffi/Caffi ydym, wedi'n lleoli ar dop y dre yn Ninbych. Rydym yn gwerthu te a choffi ffres Masnach Deg, sydd wedi cael ei rostio gan gwmni Coffi Dwyfor ym Mhwllheli. Hefyd rydym yn paratoi bwyd cartref, brecwast, brechdanau, paninis a byrbrydau, te prynhawn a chacennau - y rhan fwyaf yn cael eu paratoi ar y safle ac rydym hefyd yn cynnig bara a chacennau di-glwten a llaeth soia i'r rhai sydd ar ddiet arbennig. Rydw i hefyd yn cynnig gwasanaeth arlwyo bwyd allanol ar gyfer unrhyw achlysur - priodasau, bedydd, pen-blwyddi a the angladdau.

Rwyf yn prynu'r rhan fwyaf o'r cynnyrch yn lleol - cig



gan CLD ar yr ystâd ddiwydiannol a D. Morris, Stryd y Dyffryn yn Ninbych a Siop Clwyd Williams, Llandyrnog; Bara Henllan; llefrith gan J.B. Dairies; llysiau a salad gan Jones Price, Yr Wyddgrug; Wyau Clyttir, Rhuthun a chynnyrch Siwgr a Sbeis yn Llanrwst.

Rwyf yn cyflogi wyth o ferched dwyieithog lleol, gyda dwy ohonynt wedi bod yma ers bron y dechrau, ac ambell un wedi dod i weithio ar benwythnosau tra yn yr ysgol a choleg ac erbyn hyn wedi mynd ymlaen gyda'u gyrfaoedd.

Rydw i hefyd yn cynnig papurau newydd dyddiol i'm cwsmeriaid; Y Gadlas, Y Bedol a'r Bigwn unwaith y mis, ac i'r rhai bychain sy'n dod mewn, mae gennym focs o lyfrau Cymraeg a Saesneg a jig-sos i gadw pawb yn ddifyr.

Felly dewch heibio ni am dro i Ji-Binc am baned a thamaid i fwyta, darllen papur, neu i'r rhai ohonom sy'n gyfarwydd â'r we y dyddiau yma, mae Wi-Fi am ddim ar gael, ac erbyn hyn rydym yn cymryd taliadau cerdyn hefyd.

Felly edrychaf ymlaen at eich croesawu acw yn Ji-Binc ac ymlaen a ni i'r ddegawd nesa...

Ffion Mai Howatson

## ARDDANGOSFA ARLUNYDD LLEOL



Lansiwyd arddangosfa'r arlunydd lleol, Helen Job, yn Y Carriageworks, Lôn Pendre yn ddiweddar. Graddiodd Helen mewn Celf Gain yn 1985 ac fe ddangoswyd ei gwaith yn yr Eisteddfod Genedlethol ac yn y Ganolfan Grefftau yn Rhuthun.

Thema'r arddangosfa yn Y Carriageworks yw "Brenig."

"Yn ogystal ag olion cartrefi'r oes efydd ar ffurfiau cytiau crynion, carneddau, cylchoedd cerrig, creigiau a meini, mae tystiolaeth o symudiad o gwmpas y gweunydd gan ddyn ac anifail. Mae'r llwybrau, y cylchoedd a'r ffrydiau yma ynghyd ag awyrgylch unigryw Llyn Brenig a'i fforestydd sydd erbyn hyn bron yn fodolaeth gwarchodlyd, wedi ffurfio'r sylfaen i ran o'r gwaith yn yr arddangosfa."meddai Helen Job.

Mae gan y Parch John Evans ddisgrifiad digalon o'r daith rhwng Pentrefoelas a Llanrwst yn 1798," It is a barren morass…….we found ourselves enveloped in gloom."Ond mae Helen Job wrth ei bodd yn y Brenig ar ddiwrnod clir a heulog mewn unrhyw dymor "a'r gweunydd yn cynnig golygfeydd godidog o Eryri a'r wlad o gwmpas. Mae'r gwynt yn chwarae yn y gwair gan ffurfio patrymau diddorol a phleserus ac yn wyneb arall o'r gweunydd sydd wedi ysbrydoli rhai o'm lluniau.

Rydw i'n gobeithio fod y gwaith yma yn rhoi agwedd arbennig o'r tirlun, synnwyr o hanes cartrefi ac yn codi ymwybyddiaeth o'r tir hanesyddol arbennig hwn."

Mae'r darluniau yn yr arddangosfa mewn olew ar gynfas ac mewn cyfryngau cymysg ar gynfas neu ar bapur.

Mae'r arddangosfa gan Helen Job yn Y Carriageworks, Lôn Pendref (Love Lane) o Chwefror 15fed. tan Mawrth 24ain. Dydd Llun, Gwener a Sadwrn (11-4) a Dydd Sul (11 -3).

Hefyd mae arddangosfa arall "Glan a Gweunydd" gan Helen Job yn Theatr Twm o'r Nant o Chwefror 2ail tan Ebrill 13eg. Dewch yn llu.

O.N. Mae ymgyrch casglu £450,000 ar droed i droi'r Carriageworks sy'n adeilad Fictorianaidd tri llawr yn ganolfan neu hyb gymunedol i'r celfyddydau. Am bum mlynedd bellach mae'r gwirfoddolwyr Lynne Wilson, Rob Parkes a Veronica Hepwoth -Taylor wedi trefnu arddangosfeydd celf, cyngherddau a gweithdai ar y lloriau cyntaf ond yn awr eisiau cael meddiant parhaol o'r adeilad a defnyddio'r tri llawr.

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**

- Dillad a phethau fferm
- Bwyd anifeiliaid anwes
- Esgidiau a.y.b.
- Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

## Welsoch chi las y dorlan?

Mae'r afon Hyrdd yn rhedeg i'r afon Aled cyn iddi gyrraedd pentref Llansannan a phwll dyfn odisa pistyll lle mae'r pysgod yn llechu ydy Cafn Hyrdd. Dyma un o hoff fannau pysgota Rhys Dafis yn hogyn – ' fy mhwll i' fel tae. Dyma'r man lle gwelodd Rhys yr unig las y dorlan ochr ucha'r pentref erioed.
Yn ôl Rhys, 'roedd yn brofiad bythgofiadwy o annisgwyl.'
Dyma rannau o gywydd Rhys i las y dorlan allan o ' Beirdd Bro'r Eisteddfod' Gol. J. Glyn Jones:-

Glas y dorlan

Un nawn o haf wrth Gafn Hyrdd
oedwn yn y gwawl hudwyrdd,
a'r dŵr dan fy mhry di-hid
yn ddiog ddiaddewid.
…………
Ond yna, holltwyd ennyd
ar y banc, gan ddeffro'r byd;
treiddiodd dart trwy hedd y dŵr;
saethodd, hyrddiodd i'r merddwr
blymiwr â'i blu o emau,
dewin glas ar adain glau,
a'i ehediad mor sydyn
nes i'r lliw enfysu'r llyn;
disgyn ar sydyn grwsâd,
yna'n ôl yr un eiliad,
a'i ysgytwol bysgota'n
rhuthr o liw, yn wyrth o'r lan.



Eiliadau hudol wedyn
A'r dydd mor llonydd â'r llyn,
……..
Er mai profiad eiliad oedd,
Ni symudais am hydoedd.

Rhys Dafis

Yn ddiweddar gwelwyd glas y dorlan, wrth ac uwchben yr afon Ystrad yn y Brwcws ac ymhellach i fyny'r afon hefyd. Welsoch chi o? Gadewch inni wybod. Rydym wedi hen arfer gweld bronwen y dŵr, y siglen lwyd a'r creyr glas yn yr un ardal.
Hefyd, yn ddiweddar, gwelwyd y dyfrgi yn yr un ardal a bu sawl un â'i gamera yn gwylio'r afon rhag ofn iddo ddod i'r golwg. A welsoch chi o?

## Cerdd a Chân

Er mwyn lansio cyfrol o farddoniaeth Eifion Lloyd Jones, bydd ei deulu yn cyflwyno nifer o'r cerddi ar lafar ac ar gân ddechrau mis Ebrill. Gwasg Carreg Gwalch sy'n cyhoeddi'r gyfrol o dros gant a hanner o gerddi amrywiol – yn sonedau, telynegion, englynion, penillion ysgafn a chaneuon.
Cynhelir y lansiad swyddogol yng Nghlwb Golff Dinbych, nos Fercher Ebrill y 3ydd am 6.30, ac mae'r wasg yn gobeithio y daw camerâu teledu y rhaglen Heno yno i ddangos yr achlysur yn fyw ar S4C.
Gydag Eifion yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd holl freindal y gyfrol yn cael ei gyfrannu ganddo at yr Eisteddfod yn Llanrwst eleni. Mae croeso i bawb fynychu'r noson.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**

**CYNGOR TREF DINBYCH**
**RHAGLEN DARLITHOEDD TREFTADAETH 2019**

| Dyddiad | Darlith 7.00 yh<br>Neuadd y Dref Dinbych | Darlithydd |
|---|---|---|
| 28.02.19 | Troseddau yn y 18fed ganrif<br>(Llysoedd Dinbych) | Avril Robarts |
| 07.03.19 | Cyfoeth Llenyddol Eithriadol Dinbych | John Idris Jones |
| 14.03.19 | Y Capel Wesleaidd Cymreig Cyntaf yn y Byd | Medwyn Jones |
| 21.03.19 | Stryd Henllan - Da? Gwael? Hyll? | Clwyd Wynne |
| 28.03.19 | Y Bonedd Lleol- Ffrindiau neu Gelynion ? | Gwyn Jones |
| 04.04.19 | Fideo: Hanes Neuadd y Dref Dinbych | Ron Edwards |
| 11.04.19 | Trysorau Eglwys y Santes Fair | Gronwy Wynne |

# Ysgol Glan Clwyd

Crynodeb o drip Gwaith Maes Daearyddiaeth Blwyddyn 12 Ysgol Glan Clwyd

Ar ddiwedd mis Tachwedd, ymwelodd ein dosbarth newydd Daearyddiaeth â Gwersyll yr Urdd Glan Llyn i gychwyn ar ein gwaith maes. Ar ôl cyrraedd, taflwyd ein bagiau i'r 'stafelloedd lle byddem yn byw am y tridiau nesaf, yn casglu data, gwneud casgliadau, ac yn bennaf, mwynhau ein hunain! Nesaf ar yr amserlen oedd dechrau'r gwaith heriol, felly i ffwrdd a ni ar daith i Harlech. Wrth gyrraedd, cychwynnom gasglu data ar olyniaeth samoser y twyni tywod, er mwyn canfod unrhyw batrymau penodol oedd i weld arnynt. Gwahanom i dri grŵp, ac ynghanol rhain cawsom gwmni disgyblion Ysgol Maes Garmon a Chreuddyn, er mwyn gweithio ynghyd i gyfrifo'r pellter rhwng pob twyn, ei ongl, nifer y rhywogaethau yno a chanran y tywod yn erbyn gwair a moresg. Profiad pleserus oedd hi i gydweithio â chyfathrebu hefo disgyblion newydd hefo'r un apêl at Ddaearyddiaeth â ni.

Y daith nesaf, oedd i draeth oer Fairbourne, lle cydweithiodd pawb er gwaethaf y tywydd i ragweld patrymau yn nrifft y glannau, a'i effeithiau ar ddosbarthiad y creigiau ar y traeth. Dilynwyd hyn, gyda thaith fach i'r pentref a chyfnod i gynhesu a mwynhau cinio yng nghefn y bws mini! Ar ôl cyrraedd yn ôl i wersyll Glan Llyn, cawsom gyfle i wneud casgliadau ar sail y data a gasglwyd, ac i gydweithio eto i ddod at benderfyniadau daearyddol. Cafodd pawb amser wedyn i ymlacio, mynd i fowlio deg a thrafod anturiaethau'r diwrnod.

Yna ar ein diwrnod olaf, roedd yn amser gadael gwersyll Glan Llyn a gwneud ein ffordd i Wrecsam, lle roeddem yn treulio'r dydd yn casglu data yn Nôl yr Eryrod a Stryd Hob, ynghylch yr adfywiad oedd i weld yno. Mi roedd yn ddiddorol cael ymweld â'r ardal yma ar ôl cyfnod, ac i gael edrych yn fwy dwfn i boblogaeth yr ardal, a'i amgylchedd. Cyn i'r daith orffen, cawsom gyfle i ymweld â'r siopau, a brysio i Nando's am ginio cyn y daith yn ôl i'r ysgol. Ar y cyfan, mi roeddem wir wedi mwynhau ein profiad gwaith cwrs, ac rydym yn awyddus rwan i ddadansoddi'r data ymhellach yn ein gwersi Daearyddiaeth nesaf!

Bydd 4 o ddisgyblion Bl13 yn cystadlu yn Big Bang Birmingham ym mis Mawrth gyda datrysiad i wastraff dynol. Pob lwc iddynt!

Brannon Liston-Smith, Harry Overthrow, Samuel Carter, Osian Jones, Elin Evans.

Cewch eu hanes yn y rhifyn nesaf.

Bydd y disgyblion canlynol o Fl12 yn cystadlu yn y Big Bang Llandudno ym mis Mawrth hefyd sef Dylan Sandland, Alex Jones, Lydia Jones, Jacob Jones, Owain Jones, Owain Fisher, Deiniol Jones a Trystan Roberts. Datrysiad i broblem diogelwch ar felinau gwynt fydd eu pwnc nhw. Eto, pob lwc iddyn nhw hefyd.

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched dan 15 yn erbyn Blaenau Ffestiniog ar ennill 12 – 1. yng Nghystadleuaeth Peldroed Ysgolion Cymru. Ymlaen i'r chwarteri rwan yn erbyn Llangefni.

Pob hwyl i Josie Smith bl.12 sy'n ymarfer gyda thîm cyntaf Everton yn rheolaidd.

Gala nofio yr Urdd. Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn Aberystwyth yn ddiweddar

1af – Ellis Marc Longworth – Ras Broga Bechgyn Bl7 ac 8

1af – Tîm Glan Clwyd – Ras Gyfnewid Gymysg Bl7 ac 8

Llongyfarchiadau mawr i Taliesin Liston-Smith ar gael anrhydedd yn ei gymhwyster LAMDA Gradd 6, ac ar gael 100%. Llongyfarchiadau hefyd i Carwyn Williams a Gregory Williams ar dderbyn Tystysgrif Teilyngdod.

Llongyfarchiadau mawr i Dîm -16 pêl-rwyd merched Ysgol Glan Clwyd ar ddod yn bencampwyr Sir Ddinbych yn ddiweddar. Buont yn cynrychioli Sir Ddinbych yng Nghystadleuaeth Ann Smart, ardal Dwyrain Cymru yn Wrecsam ar Chwefror 14eg ac er iddynt chwarae yn rhagorol, ni fu llwyddiant eleni.




Bu hanes Elin Evans (bl.13) yn y papur mis diwethaf, ac mae angen ei llongyfarch unwaith eto. Mae Elin hefyd wedi dod yn ail trwy Gymru yng nghystadleuaeth Myfyriwr y Flwyddyn EESW. Roedd y safon yn uchel dros ben, fel bod y beirniaid yn cael cryn benbleth gwneud eu dewis. Mae Elin wedi cael ei gwahodd i fynychu dathliad yn Ysgol Alun ar Chwefror 15fed, pan fydd Arglwydd Barry Jones yno i gyflwyno'r tystysgrifau i'r enillwyr. Da iawn Elin.

Diolch yn fawr iawn i rieni a disgyblion bl 9 a ddaeth i'r noson ddewisiadau. Roedd y lle yn llawn ac rydym yn falch fod y disgyblion yn frwdfrydig ar wneud eu dewisiadau ar gyfer eu cyrsiau TGAU.

Pwy geith y Gig? Daeth cwmni teledu i mewn i gyfweld nifer o ddisgyblion ar gyfer y rhaglen deledu 'Pwy geith y Gig?' Cawn weld os bydd rhywun yn llwyddiannus.

Roedd Radio Cymru 2 yn dathlu ei phenblwydd yn un oed ar Ionawr 28ain, a daeth Caryl Parry Jones ac eraill ar ymweliad â'r ysgol i siarad hefo aelodau'r 6ed dosbarth.

Nos Iau, Chwefror 14eg, bu'r 6ed dosbarth yn cynnal disco Sant Ffolant i fyfyrwyr Coleg Pengwern. Mae'r digwyddiad yma yn un blynyddol yng nghalendr y 6ed dosbarth ac mae'n dda fod y



TE YN Y GRUG

Tþ Te a Delicatessen

Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576

cysylltiad gyda Choleg Pengwern yn parhau. Cafwyd noson dda a phawb wedi mwynhau.

Taith i Lundain. Ar ddechrau mis Chwefror cafwyd taith i Lundain i ddisgyblion bl 8 i 11 oedd â diddordeb mewn Cerdd a Drama. Roeddynt yn cael y cyfle i fynd i weld dwy sioe sef *'Aladdin'* a '*Someone's Talking about Jamie'* a chafwyd taith ar y '*London Eye'* a chyfle i siopa yn Covent Garden. Roedd pawb wedi mwynhau'r daith ac yn edrych ymlaen i'r un nesaf yn barod.

Rydym ar hyn o bryd yn brysur yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Ysgol a fydd yn cael ei chynnal ar Chwefror 21ain. Cewch fwy o hanes tro nesa.

Cwrs *Playmaker* Cymraeg

Ar ddydd Llun, Chwefror 11, mynychodd 23 o blant clwstwr Cynradd Ysgol Glan Clwyd gwrs *'Playmaker'* ar ein safle. Maent eisoes yn llysgenhadon chwaraeon Efydd yn eu hysgolion cynradd, felly roedd yn ddiwrnod buddiol iawn iddynt. Dysgwyd sut i fod yn arweinydd da gyda digon o gyfle i gymysgu hefo'i gilydd, cyn cael cyfle i arwain sesiwn eu hunain ar y diwedd. Rydym yn edrych ymlaen i'w derbyn fel hyfforddwyr y dyfodol yma yn Ysgol Glan Clwyd!

Cwrs dyfarnu pel-rwyd

Ar ddydd Mercher, Chwefror 13, mynychodd 9 o ferched Ysgol Glan Clwyd gwrs dyfarnu pêl-rwyd. Bydd cyflawni'r cwrs yn galluogi iddynt ddyfarnu clybiau amser cinio, gemau ysgol a chystadlaethau Cynradd lleol. Diolch i Mari o'r Urdd am drefnu.



Hwyl a gwlychu ar Lyn Tegid



Yr hogie yn barod i gysgu!!!!!

## YSGOL TWM O'R NANT

Aeth plant yr uned dan 9 am ddeuddydd i wersyll yr Urdd yn Glan Llyn, Bala ym mis Chwefror, a chael llawer iawn o hwyl yno. Cawsant gyfle i ganwio, dringo wal, bod ar gwrs rhaffau a bowlio 10. Roedd hi hefyd yn gyfle i rai o'r plant aros oddi cartref am y tro cyntaf. Diolch i'r plant am ymddwyn yn dda iawn, ac i'r holl staff a roddodd eu hamser gwirfoddol i ofalu am y plant. Daeth pawb yn ôl wedi blino yn lân ond wedi cael llawer o brofiadau newydd a lot o hwyl.





Barod am lawer o hwyl a sbri



Barod i fynd i ganwio



Lili a Nathaniel yn aros tro ar y cwrs rhaffau



Fe ddysgodd yr uned sut i ddod yn Ffrindiau Dementia a chawsant sgwrs a gweithdy gwybodus iawn gan Cheryl Williams. Mae pob un yn ymwybodol nawr o beth yw Dementia a sut all effeithio pobl, ac yn bwysicach sut gall y plant helpu.



Mehefin 21ain - Noson Goffi a Hwyl
yn Ysgol Llanrhaeadr
am 7yh - MENCAP Dinbych a Rhuthun



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Jane Jones ar ennill teitl Cogyddes ysgol gorau Cymru. Bydd hi nawr yn cynrychioli Cymru yn y rownd derfynol mis nesaf. Pob hwyl Mrs Jones!!

Yn sgîl llwyddiant Mrs Jones, daeth Gerallt Pennant a chriw ffilmio rhaglen Heno i'r ysgol i ffilmio rhai o'r plant a Mrs Jones. Roedd y plant wrth eu boddau ac arhosodd Gerallt Pennant i gael cinio ysgol hefo'r plant.





## Nofio yr Urdd

Aeth criw o nofwyr llwyddiannus iawn o'r ysgol i gynrychioli Sir Ddinbych yn Gala Nofio yr Urdd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Cawsant lwyddiant arbennig gan guro eu record bresennol. Roedd Gruff yn fuddugol yn ei ras sef categori nofio rhydd newydd i blant ag anghenion. Daeth ras gyfnewid genod blwyddyn 3 a 4 yn 6ed. Daeth Arthur a Flora yn 5ed yn eu rasys nhw sef nofio broga a nofio rhydd. 6ed oedd Sion yn ei ras pili pala o. Pob un ohonynt wedi gwneud yn arbennig ac rydym yn falch iawn ohonoch i gyd fel ysgol. Diolch i'r rhieni cefnogol a aeth i lawr hefo'r tîm i Gaerdydd.





## Cogurdd

Roedd arogl bendigedig yn neuadd yr ysgol yr wythnos diwethaf gyda bron i 40 o blant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd. Roedd rhaid iddynt baratoi cebabs a pesto. Mrs Jane Jones a Mrs Nerys Anderson oedd yn beirniadu ac mi wnaethant roi y wobr gyntaf i Mabon Roberts o flwyddyn 6. Bydd Mabon nawr yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Pob hwyl i ti Mabon.



## Gymnasteg Yr Urdd

Cafodd Sion o flwyddyn 4 lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yn ddiweddar. Daeth yn gyntaf yn rownd Sir Ddinbych. Felly bydd yn mynd i gynrychioli y sir nawr yn y rownd nesaf yn Aberystwyth. Pob hwyl i ti Sion.



Plant yn siarad a holi Dr Takeshi





## Uned Dan 7

Mae hi wedi bod yn hanner tymor cyffrous a phrysur yn yr Uned Dan 7. Cawsom fynd ar drip i Techniquest yn Wrecsam i gael gweithdy codio. Roedd y plant wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer a chael profiadau newydd.



Cafodd y plant lot o hwyl yn yr ardd yn cynhesu llaeth ar gyfer siocled poeth fel y cymeriadau yn un o'r storïau yr ydym wedi ei chlywed yn y dosbarth

## Uned Dan 11

Hanner tymor yma rydym wedi bod yn edrych ar ryfeddodau'r byd a darganfod yr iaith Gymraeg ymhell o'i chartref. Wrth ymchwilio, roedd y dysgwyr wedi dod o hyd i Dr Takeshi o Siapan sydd yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn sicr mae mwy i ddod gyda'n perthynas â Siapan!

Yn ogystal â hyn, mae'r dysgwyr wedi bod yn edrych ar gynefinoedd anifeiliaid ac wedi cael profiad gwych ym Mharc Safari Knowsley. Yno, cawson weld llawer o anifeiliaid prin a'r gwaith pwysig mae'r parc yn ei wneud i arbed yr anifeiliaid.

# Cynnydd mewn materion Iechyd Meddwl

Mae llymder wedi arwain at gynnydd brawychus yn nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ôl pennaeth elusen eiriolaeth. Datgelodd Elfed Williams, Cyfarwyddwr Gwasanaethau yn y Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS), bu cynnydd o 15 y cant yn ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd Mr Williams yn siarad mewn digwyddiad arbennig i ddathlu degfed pen-blwydd y mudiad sydd wedi ei leoli yn Llanelwy.

Yn briodol, y lleoliad ar gyfer y dathliad oedd Canolfan Gymunedol Eirianfa yn Ninbych lle lansiwyd CADMHAS i roi llais i bobl na allant gynrychioli eu hunain. Roedd y gwesteion anrhydeddus yn cynnwys cyd-gadeiryddion Jenny Gilmore ac Anne Dennis a helpodd i sefydlu'r elusen ar ôl dioddef problemau iechyd meddwl eu hunain.

Ar y dechrau, dim ond un aelod o staff oedd yn gweithio i'r elusen ond bellach mae'r elusen yn cyflogi 19 o bobl ac wedi ehangu ei weithrediad gan gynnwys Sir Powys. Mae'r timau yn gweithio gyda phobl sydd mewn unedau iechyd meddwl neu allan yn y gymuned, yn ogystal â gofalu am fuddiannau pobl â dementia. Mae tîm arall yn gweithio gyda phobl iau o 11 o i 25 oed i helpu i ymdopi â materion yn yr ysgol neu broblemau eraill.

Meddai Elfed Williams: "Mae heddiw yn sicr yn ddiwrnod pwysig yn hanes CADMHAS ac yr wyf yn ffodus o gael tîm hynod sy'n gweithio'n galed. Byddwn yn dweud erbyn hyn ein bod yn gweithio hefo tua 1,300 o bobl bob blwyddyn drwy ein holl brosiectau, sydd wedi cynyddu tua 15 y cant yn y niferoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r galw yn cynyddu, yn enwedig gyda'r prosiectau cymunedol. Mae nifer y rhai sydd yn yr unedau iechyd meddwl a'r cartrefi gofal ar y cyfan yn eithaf sefydlog ond mae nifer y rhai sydd yn y prosiect cymunedol wedi dyblu i tua 600.

"Mae gwasanaethau wedi diflannu o ganlyniad i doriadau gwariant sy'n cael eu gyrru gan lymder sy'n achosi mwy o dlodi. O ganlyniad, ni all pobl dalu eu rhent ac maent yn cael eu troi allan o'u cartrefi. Gall hyn gael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o boeni am faterion ariannol oherwydd nad oes digon o arian ganddynt i fyw arno. Mae'n dod yn gylch dieflig sy'n dod â phroblemau iechyd meddwl yn fwy i'r amlwg mewn modd na fyddai o bosibl wedi bod o'r blaen.

"Roedd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn ymddangos i fod yn ffactor arall yn y cynnydd. Siaradais â rhywun sy'n rhedeg banc bwyd lleol ac maent yn dweud bod llawer o broblemau gyda phobl yn gorfod aros am eu budd-daliadau. Mae llymder wedi bodoli ers cyhyd ag yr ydym ni wedi bod mewn bodolaeth, ac nid oes tystiolaeth bod pethau'n gwella eto. Os rhywbeth, mae'n mynd yn waeth ac mae hyn yn frawychus fod dim golwg yn y cyfnod byr y bydd pethau'n gwella.

"O leiaf mae CADMHAS yn bodoli i roi help llaw i bobl. Rydym yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac sy'n cael ei adlewyrchu yn y negeseuon yr ydym yn ei dderbyn yn ôl oddi wrth bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn llais i bobl nad ydynt yn gallu siarad drostynt eu hunain, boed mewn unedau iechyd meddwl, cymunedol, ysbytai neu gartref gofal.

"Rydym yn ffodus iawn gyda'r ymddiriedolwyr sydd gennym ac yn ein cyd-gadeiryddion, Anne a Jenny, sydd wedi bod yn ddefnyddwyr y gwasanaethau iechyd meddwl ac mae eu persbectif yn amhrisiadwy. Maent yn wych. Maent yn helpu a chefnogi'n gwasanaeth ac maen nhw o hyd yno i roi cyfeiriad a chymorth wrth symud ymlaen."

Dywedodd Jenny, sy'n byw yn Ninbych, "Mae gennym dîm gwych ac rwy'n falch iawn o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni. Mae angen mawr am y gwasanaeth hwn. Gallwn i gyd fod yn destun salwch meddwl - does dim ots faint o arian sydd gennych neu pa mor dda rydych chi wedi eich addysgu. Mae'n hollol amherthnasol."

Roedd yn deimlad gafodd ei adleisio gan Anne o Drefnant, a ychwanegodd: "Rwyf wedi dioddef o iselder drwy gyfnodau yn fy mywyd ac rwy'n credu y buasai'n ddefnyddiol pe bai eiriolydd wedi bod ar gael yr adeg honno. Y dyddiau hyn, mae eiriolaeth yn cael ei arwain gan y cleient ac yr wyf yn meddwl y buasai cael y cymorth wedi fy ngrymuso i allu rheoli pethau yn llawer gwell nag oeddwn yn gallu ei wneud. Rwy'n oroeswr, fel mae pawb, ond mae'n rhaid i chi gael y cymorth iawn ar yr adeg iawn."

Mae Cyfreithiwr Lynette Viney-Passig yn Ymddiriedolwr hefo CADMHAS ac yn darparu cefnogaeth gyfreithiol.

Meddai: "Roeddwn i'n teimlo ei bod yn bwysig i fod yn rhan o'r sefydliad hwn ac mae fy swydd bob dydd yn golygu fy mod weithiau yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed sydd â phroblemau iechyd meddwl. Rwy'n teimlo fod fy mhrofiad yn golygu y gallaf wneud cyfraniad gwerthfawr, ynghyd â phobl eraill sydd ag arbenigedd mewn gwahanol feysydd. Mae'r gwaith a wneir gan CADMHAS yn gwbl hanfodol at anghenion a lles ein defnyddwyr ac yn ganolog i bopeth a wnawn."

Elfed Williams




Elfed Williams Cyfarwyddwr CADMHAS a'r tîm

# MISS SUSANNA GEE

Ganed Mary Susanna Gee ar 28 Ebrill, 1844, yn Ninbych, yn ferch i'r enwog Thomas Gee yr ail a'i wraig, Susanna.

'Corff bychan a chymharol eiddil oedd ganddi. 'Roedd ganddi feddwl hynod o glir; yn y golwg, osgo a symudiad y fam; yn y meddwl, ysbryd penderfynol a gwrol y tad. Yr oedd yn amlwg fod natur wedi cael rhan fawr yn ffurfiad maint ei chalon a gras yn helaethrwydd ei daioni a'i phurdeb'.

LÔN ABRAM

Yn ystod yr ail ran o'r 19eg ganrif meddwdod oedd y broblem gymdeithasol fwyaf yn yr ardal. Medd D.E. Jenkins: 'Yr oedd rhannau o'r dref ... yn nythle meddwon ac ymladdwyr a herwhelwyr lladronus. Un o heolydd gwaethaf y dref oedd Lôn Abram. Gofidiai Miss Gee yn fawr dros hyn a gwelai nad oedd moddion cyffredin yr eglwysi yn cyffwrdd pobl o'r fath.

Cymerodd ei thad dŷ ar dreth yn Lôn Abram a dechreuodd hithau gynnal Ysgol Sul ynddo. Llwyddodd i gasglu hanner dwsin i ddechrau. Cyn hir yr oedd y gwaith wedi gwneud argraff digon dymunol i Miss Gee a'i disgyblion fachu eraill gyfarfyddent ar y ffordd - yn enwedig rhwng dau a hanner awr wedi dau. Yr oedd y tafarnau'n agored yr adeg honno tan ddau ar y Sul.

Caniatawyd i'r disgyblion gnoi tybaco, poeri ar y llawr ac os digwyddai i rywun fynegi ei benbleth uwch ben elfennau'r wyddor gyda rheg, gwridai hithau wrth awgrymu iddo fod elfennau yn y frawddeg nad oedd raid iddo lynu wrthynt. Yn y parlwr bach yr oedd 'ginger beer' i dorri syched. Yr unig beth na oddefid oedd bod yn absennol o'r Ysgol Sul. Coronwyd y gwaith yn Lôn Abram â llwyddiant mawr.

BODAWEN

Yn 1882 bu farw gŵr o'r enw Barber, Plas Ashpool, Llandyrnog, arweinydd y Plymouth Brethren yn adeilad Bodawen. Prynwyd Bodawen gan Thomas Gee at wasanaeth cenhadaeth ei ferch – y gwaith i barhau'n anenwadol.

Yno bu Miss Gee yn cynnal Ysgol Gân am flynyddoedd ar nos Sadwrn, ac yn achlysurol seiadau a chyfarfodydd gweddi. Gofalai hefyd am weinidog i fedyddio plant y genhadaeth.

Cafodd dirwest le mawr ym mywyd Miss Gee. Gweithiai yn ddiflino drosto. Hoffai siarad ar y pwnc ond nid oedd ganddi lais da i siarad yn gyhoeddus. Treuliai oriau ar nos Sadwrn yn nhai dynion diotlyd er mwyn eu rhwystro i fynd i dafarn.

Yr oedd y Temlwyr Da, mudiad dirwestol, yn gryf iawn yn Ninbych a bu eu Lodge Caledfryn yn cyfarfod ym Modawen am tua hanner canrif. Caniataodd Miss Gee i'r mwyafrif o bwyllgorau gwleidyddol y cymdeithasau Rhyddfrydol gyfarfod yno hefyd.

YR INFFIRMARI – PWYLLGORAU

Byddai Miss Gee yn cynnal gwasanaeth bob nos Sul yn yr Inffirmari, gan ddarllen, gweddïo a chadw seiat. Os byddai angen, rhoddai Feiblau i'r cleifion. Ymwelai yno hefyd bob prynhawn dydd Mawrth.

Yr oedd yn aelod o bob pwyllgor agored i ferched dirwestol; gyda'r symudiad i gael 'district nurse' i'r



dref.

Gwariai swm helaeth iawn o'i heiddo dros grefydd ac mewn cymwynasau. Ni fynnai hi i neb sôn am hyn.

WRECSAM – Y MEDALAU

Yr oedd nifer o ddisgyblion yr Ysgol Sul yn gorfod mynd i 'Barracks' Wrecsam at y Militia. Cymerodd Miss Gee dŷ yno yn Chester Street 'er mwyn bod yn ymyl i ofalu na lithrai neb ohonynt.' Byddai'n cynnal cyfarfodydd yn y tŷ a gofalai fod yr Ysgol Sul a'r cyfarfodydd gweddi yn cael eu mynychu.

Mae'r Parch D. E. Jenkins yn sôn amdani yn 'strategist' o'r math goreu, er nad oedd, yn fynych, yn 'tactician'; yn fwy na bod yn gymwynasgar, magodd ysbryd cymwynasgar yn ei disgyblion.

Dywed Jenkins (wrth sôn am y Medalau Gee): 'Nid coffadwriaeth ei rhieni yn unig sydd yn cyfrif am iddi roi medalau i hen ysgolorion yr Ysgol Sul. Cyplysodd gyda hynny les y sefydliad goreu a feddwn: ac y mae'r ffaith na chyfyngodd hi y medalau i Ysgolion Sul y Methodistiaid yn profi fod ysbryd llywodraethol ei chenhadaeth yn rheoli ei hamcan gyda'r mater hwn hefyd.'

Y FANER – GWLEIDYDDIAETH

Teithiai'n fynych gyda'i thad a rhoes lawer o gynhorthwy iddo yn ei waith cyhoeddus. Cymerai ddiddordeb yng ngwaith swyddfa'r 'Faner' a bu am gyfnod maith yn gofalu am y llyfrau.

Cymerai hefyd ddiddordeb byw yn y Blaid Ryddfrydol, gan ddadlau dros ei hegwyddorion ar y llwyfan. Daeth i gysylltiad ag aelodau seneddol ac yr oedd yn un o gyfeillion personol Lloyd George.

Nadolig, 1915, anfonodd amryw o lyfrynnau i filwyr Cymru yn Ffrainc, yn cynnwys hen ganeuon Cymraeg, i gadw sêl eu gwladgarwch yn gynnes.

Bu farw Miss Gee noson Nadolig 1916.

Pan oedd yn gadael ei hen gartref, 'Bronallt', i fynd i fyw yn 'Eryl' (y naill dŷ a'r llall yn Heol y Dyffryn), cymerodd ddwy ystafell gydag 'un o frodyr gwlyb y dref.' Dyma ei deyrnged iddi: 'Wn i ddim sut mai hi yn byw! 'Dydi hi yn bwyta dim mwy na bwyd aderyn. Y mae hi yn byw i bawb ond iddi ei hun!'

Colofn Hanes yng ngofal E. P. Williams – Y Bigwn, Mawrth 1989



# Dwy Wlad Unedig

Mae Dewi Rogers yn beiriannydd dŵr sy'n wreiddiol o Ddinbych ond wedi bod yn byw yn Umbria yng nghanolbarth yr Eidal ers 25 mlynedd lle mae ganddo gwmni ymgynghori rhyngwladol. Dyma'i hanes diweddaraf :-

Fel arbenigwr yn y diwydiant dŵr, rwyf wedi bod yn ffodus i weithio mewn dros ddeugain gwlad, o ogledd, canolbarth a de America i Ewrop, Affrica ac Asia. Y cwestiwn mae llawer yn ei ofyn i mi, ydi: “Pa wlad yw'r orau?” Does dim ateb syml wrth gwrs, ond yn ddieithriad, dwi'n ddweud “Yr Eidal i fyw ynddi, ac Indonesia o ran caredigrwydd y bobl”.

Yn ddiweddar fe ddaeth y ddwy wlad ynghyd, dim yn unig oherwydd fy mod newydd gyrraedd yn ôl i'r Eidal o Jakarta, prif ddinas Indonesia, ond hefyd oherwydd bod un o wasanaethau'r wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni wedi cael ei chynnal yn fy eglwys leol - San Leonardo yn Assisi.

Y thema oedd *Cyfiawnder, a dim ond Cyfiawnder* (Deuteronomium 16: 18-20), y cyfan wedi ei drefnu gan ferched Cristnogol Indonesia – y wlad Fwslemaidd fwyaf y byd. Roedd hon yn thema briodol iawn i Eglwys San Leonardo gan ei bod yn wreiddiol wedi ei hadeiladu 600 mlynedd yn ôl fel man addoli i deuluoedd carcharorion oedd yn deillio o'r ymladd diddiwedd rhwng Assisi a Perugia. Roedd y rhyfela yma yn rhan bwysig o brofiad cynnar Sant Ffransis o Assisi, wrth gwrs.


Eglwys San Leonardo

Ychydig sydd wedi newid yn yr adeilad ers y dyddiau hynny i fod yn onest, gan gynwys y ffresco arbennig o Grist ar y groes gyda Sant Ffransis ar y dde a Sant Leonard ar y chwith gyda'i gadwyni. Does dal dim gwres canolog chwaith!

Diolch byth fod yr eglwys yn llawn y noson o'r blaen gyda 80 o addolwyr o bob enwad, gan gynnwys Esgob Assisi, yn creu cynhesrwydd dynol.

Er mai eglwys Babyddol ydi Eglwys San Leonard, mae'n cael ei defnyddio erbyn hyn gan Urdd Anglicanaidd Sant Ffransis i gynnal gwasanaethau mewn Saesneg. Mae felly yn fan cyfarfod i addoli bob dydd Sul i griw o dramorwyr fel fi sy'n byw yn Umbria ac i bererinion hefyd.

Os ydych yn digwydd bod yn ymweld â'r rhan hyfryd hon o'r Eidal, cofiwch alw heibio. Mae tua ugain ohonom yn aelodau sefydlog, yn tarddu o un pen i'r llall o'r byd a dau ohonom o Gymru. Mae dylanwad yr eglwys fechan hon yn ymestyn yn dipyn pellach na'r aelodau, fodd bynnag. Mae'r cylchgrawn Outlook yn cael ei ddosbarthu i dros 800 o gyfeillion dros y byd. Fel cyn-olygydd, roedd yn syndod i mi ddeall mor bwysig oedd hi i gymaint gadw mewn cysylltiad gyda'r ddinas arbennig hon sy'n cynrychioli heddwch a chyfiawnder. Priodol iawn dwi'n siwr i Gristnogion Indonesia a sawl man arall yn y byd heddiw.

Dewi Rogers



## COFNODION MEDDYGOL YN YSBRYDOLI CYNHYRCHIAD THEATR

Cofnodion meddygol yr hen ysbyty meddwl Dinbych yng Ngogledd Cymru yw ysbrydoliaeth drama Gymraeg newydd fydd yn teithio Gwanwyn yma.

Yn 2012, yn dilyn cais gan ddoctoriaid seiciatrig ym Mangor, defnyddiodd cwmni Frân Wen gofnodion meddygol y seilam Fictorianaidd fel ysbrydoliaeth ar gyfer cynhyrchiad theatr byw.

Saith blynedd yn ddiweddarach, mae'r stori yma – Anweledig – yn paratoi i deithio theatrau mwya' Cymru.

Wedi ei ysgrifennu gan yr awdur adnabyddus Aled Jones Williams, Ffion Dafis sydd yn chwarae rhan Glenda, clerc banc sy'n byw gydag iselder difrifol ac sy'n glaf yn ysbyty iechyd meddwl Dinbych.

Mae'r ddrama un-actor yn dilyn ei siwrnai galonogol, drawmatig a gobeithiol.

"Dyma'r tro cyntaf i mi berfformio monolog ar y prif lwyfan, felly rwy'n teimlo'n gyffrous iawn (ac yn nerfus)," meddai Ffion Dafis.

"Wedi treulio 6 mlynedd yn datblygu'r sioe, mae o wedi bod yn esblygiad naturiol. Dechreuon ni gyda pherfformiadau mewn lleoliadau bychain ond, wrth i Aled ddatblygu'r sgript, daeth yn amlwg bod stori Glenda yn haeddu'r brif lwyfan."

"Byddwn yn defnyddio'r llwyfan i'n mantais – ydw, dwi yno ar fy mhen fy hun ond fyddwch chi ddim yn siomedig pan fyddwch chi'n gweld sut mae'r set, y delweddau a'r gerddoriaeth wedi eu dylunio o gwmpas i. Rydym yn edrych ymlaen at rannu'r cyfanwaith am y tro cyntaf a'r tro diwethaf."

Rydym yn dilyn gofid personol Glenda wrth iddi fynd i'r afael â'r salwch a bywyd y tu allan i'r ysbyty – rydym yn dysgu nad yw'r daith i adferiad yn syml.

Mae sgript yr awdur yn tynnu ar ei brofiadau ei hun, "Mae Anweledig yn ein helpu i ddeall, dynoli a chydymdeimlo â phobl sy'n dioddef o iselder," meddai Aled Jones Williams.

"Pan oeddwn i yn sâl roedd llawer o bobl yno i fy helpu, ond fel roeddwn i yn gwella roedd y bobl yn ei gweld yn anoddach. Mae 'na linell yn y ddrama ble mae'n dweud 'Mae gwella yn beth blêr. A salwch yn od o daclus'.

"Roeddwn yn haws i fy nhrin pan oeddwn yn sâl na phan oeddwn yn gwella. Roedd pobl yn disgwyl i mi neidio i fyny a deud 'Iesu, mae'n iawn rŵan,' – ond doeddwn i ddim.

"Peth arall yw ailbwl. Mi ddigwyddith. Mae pawb yn llithro ond dwyt ti ddim yn mynd yn ôl i'r lle cychwynnol.

"Proses ydi gwella, nid un digwyddiad ar un diwrnod."

Mae'r Cyfarwyddwr Sara Lloyd yn argyhoeddedig y bydd pobl yn cerdded o'r theatr wedi mwynhau'r profiad.

"Rwyf am iddynt gerdded allan yn meddwl ychydig yn wahanol am y salwch. Gobeithio y byddant yn cael eu difyrru, byddant yn chwerthin ac yn crio, ond byddant yn teimlo'n fwy cadarnhaol am iselder. Rwy'n sicr y bydd pob aelod o'r gynulleidfa yn gallu uniaethu â hi mewn rhyw ffordd neu'r llall. Mae iselder ac iechyd meddwl yn ein cyffwrdd ni i gyd."

"Mae hi'n anrhydedd gweithio gydag Aled gan ei fod yn awdur mor hael. Mae wastad yn barod i drafod pob agwedd o'i waith. Mae ei waith yn difyrru am fod ei hiwmor naturiol bob amser yn disgleirio – mae'n adnabod y byd hwn, y tywyllwch a'r goleuni, ac mae rhywbeth go iawn amdano.

Mae wastad ystyr mwy dwys i'w waith, yn aml-haenog ac mae ei sgriptiau fel darnau o gerddoriaeth, mae ei rythm yn hyfryd i wrando arno a dyna beth sy'n cario'r gynulleidfa drwy'r stori."

I gyd-fynd â'r cynhyrchiad, mae Frân Wen wedi comisiynu'r artist Mirain Fflur i greu arddangosfa gelf fydd yn rhedeg ochr yn ochr â phob sioe. Mae Mirain yn defnyddio naratif y ddrama ynghyd â straeon o'r hen ysbyty fel ysbrydoliaeth i greu arddangosfa gelf fydd yn rhedeg ochr yn ochr â phob sioe.

Cynhelir y cynhyrchiad a'r arddangosfa yn Pontio Bangor (19 – 22 Chwefror), Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth (5 – 8 Mawrth), Theatr Y Sherman Caerdydd (12 – 13 Mawrth), Ffwrnes Llanelli (18 – 21 Mawrth) a Stiwt, Rhosllannerchrugog (26 – 27 Mawrth).

Am docynnau a gwybodaeth pellach: www.franwen.com

### Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru







## Atebion CHWEFROR 2019

**Ar Draws :**
1. Alcohol
5. Ysgoldy
9. Wedyn
10. Moesoldeb
11. Cwestiynwr
12. Sêt
14. Is-reolwr
16. Cowboi
19. Gwener
20. Parabola
21. Yma
23. Ystrydebol
27. Is-bennawd
28. Erial
29. Dedfryd
30. Blaenwr

**I Lawr :**
1. Arwr
2. Cyd Chwarae
3. Hanes
4. Limrigwr
5. Y cefn
6. Gwobr goffa
7. Ladis
8. Ysbyty Ifan
13. Dirgryniad
15. Offerynnwr
17. Brodorion
18. Manyldeb
22. Arbed
24. Traed
25. Eseia
26. Clir

# CROESAIR MAWRTH 2019



**Ar Draws :**
8. Gallant ddod o Asia neu Affrica
9. Ffrind Loli
11. Rheolwr tîm pel-droed Cymru
12. Beirniadaeth o lyfr neu ddrama
13. Murddun
15. Ailgynnau (diddordeb)
18. Ffrwyth gwyrdd â charreg fawr tu mewn iddo
19. Cennad
22. Cyflwr sy'n effeithio ar y llygad
24. Aderyn mawr iawn
26. Barn meddygol
28. Brenhines o'r ganrif cyntaf
30. Un o'r cefnforoedd
31. Creu gwarchae o gwmpas

**I Lawr :**
1. Brwyn
2. Dwyn i gof eto
3. .... Garmon, ysgol uwchradd yn Yr Wyddgrug
4. Llyfr llawn mapiau
5. Difyrrwch 6. Bwlch mewn wal
7. Mil o filoedd
10. Sain cerddorol
13. Gŵr Efa
14. Yr hen a ŵyr, yr ….. a dybia
16. Rheswm annigonol
17. Gorthrwm
20. Maent yn astudio'r gofod
21. Cystadleuaeth rhedeg
22. Rhaid disgwyl yn hir am hwn mewn drama
23. Ffrâm gyfrifo
25. Plygu dan bwysau
27. Mae hi'n un o 8ad
28. Gareth, sy'n dipyn o chwaraewr pêl-droed!
29. Planhigyn o rywogaeth Erica

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
National SAIF Independent Funeral Directors

# Y Busnes Iaith Yma

"Braidd yn fratiog ydyw eich Cymraeg llafar, Mr Lyall," neu rywbeth tebyg oedd y geiriau a ysgrifennodd y tiwtor coleg yn ei sylwadau ar derfyn y wers a gyflwynais i ddosbarth mewn ysgol gynradd ym 1972.

Am beth amser fe wnaeth y geiriau fy mhoeni.

Gallwn yn hawdd fod wedi penderfynu rhoi'r ffidil yn y to pe bawn yn greadur croen denau.

Wnes i newid fy ffordd o gwbl?

Naddo wir. Mwy nag y gwnes i wrando ar y prifathro hwnnw a wnaeth fy ngheryddu am ddweud chdi wrth blant Gwynedd yn hytrach na chi.

" Sorry I didn't quite understand you since you have a slight speech impediment," oedd geiriau'r newyddiadurwraig uniaith Saesneg o ardal Caernarfon - o bob man! - wrth sgwrsio â mi.

Rydwi'n dal i ddifaru'n enaid na fyddwn i wedi d'eud wrthi, " But at least I can speak, read and write in both English and Welsh."

Ac fe wnes i benderfynu dal i rowlio'r r byth er hynny!

A dyna chi'r tro hwnnw pan wnes i benderfynu cystadlu ar adrodd yn eisteddfod fawr Ysgol Brynrefail.

Neb llai nag un a fu'n Archdderwydd yn beirniadu, a'i ymateb imi pan ddywedais f'enw oedd, " Dysgwr ydach chi? "

A minnau yn un na fedrai gynnal sgwrs yn yr iaith fain gyda pherthnasau ar y pryd!

Stanley Lyall yn ddysgwr wir!!

Efallai y byddai wedi rhoi llwyfan imi pe bawn wedi cymryd arnaf mai dysgwr oeddwn i. Biti garw.

Digwyddiadau sydd yn dyddio o'r gorffennol pell ydy' rhain, ac y maen nhw'n dal yn fyw yn y cof...ac yn dal i frifo.

..........................................

Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050 ydy' nod anrhydeddus y gwleidyddion ym Mae Caerdydd.

Ydy' o'n darged realistig?

"O b'le daw'r athrawon?" oedd y sylw a wnaeth mwy nag un athro Cymraeg, mae'n siwr.

Wedi'r cyfan, dydy'r ffaith eich bod chi'n siarad Cymraeg ddim yn golygu medrwch chi roi gwersi Cymraeg... mwy nag y mae'r ffaith eich bod chi'n mynd i'r capel yn golygu y gellwch chi fod yn athro Addysg Grefyddol.

Mae gen i edmygedd a pharch mawr at bawb sydd yn dysgu ac wedi dysgu Cymraeg i ddysgwyr. Gwn na allwn i wneud y gwaith er imi dreulio blynyddoedd lawer gyda'r teitl crand athro Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae yna fyd o wahaniaeth rhwng y ddau beth.

Mae'r dechneg a'r sgiliau sydd eu hangen mor wahanol.

Yn ôl a ddeallaf, eleni dim ond llond dwrn sydd dan hyfforddiant yn un o'r prif sefydliadau addysgol yng Nghymru ar gyfer bod yn athrawon Cymraeg mewn ysgol uwchradd.

Ia, dim ond llond dwrn.

Ond efallai nad ydw i wedi deall pethau. Ai robotiaid sydd ganddyn nhw dan sylw i wneud y gwaith erbyn 2030?

..........................................

Dros y blynyddoedd mae yna ambell un wedi bod yn feirniadol yn Y Bigwn o'n harchfarchnadoedd lleol a'u diffyg parch at y Gymraeg.

Wel, yn ystod y degawd diwethaf mae pethau wedi siapio yn arw gydag arwyddion Cymraeg i'w gweld ymhobman, a'r rhai hynny yn arwyddion mawr lliwgar.

Mae yna negeseuon yn y Gymraeg i'w clywed dros yr uchelseinydd hefyd.

Oes, y mae ambell arwydd rhyfedd iawn wedi bod o dro i dro – ac ambell un i'w weld o hyd - ond y mae pethau wedi gwella'n arw yn ddiweddar.

Mae'n ymddangos hefyd fel pe bai yna fwy o weithwyr sydd yn Gymry Cymraeg yn gweithio mewn ambell archfarchnad.

Mae hyn yn cadw rhai o'n pobl ifainc ni yn eu cynefin, ac y mae hynny i'w groesawu yn fawr iawn.

Un peth arall hoffwn ei weld ydy' cerddoriaeth Gymraeg ysgafn dros yr uchelseinydd. Byddai ychydig o Elin Fflur neu Bryn Fôn wedi bod yn dderbyniol iawn i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

Fel y dywedodd rhyw foi ganrifoedd yn ôl, " Gwnewch y pethau bychain."

Gŵyl Ddewi ddedwydd i chi.

Stan Lyall

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**



# Clwb Pêl-Droed Dinbych

Gohiriwyd sawl gêm yn ddiweddar i'r timau i gyd o ganlyniad i'r tywydd gwael. Dim ond tair gêm a chwaraeodd y tîm cyntaf yn ystod y mis a phob un o'r rheini oddi cartref. Cafwyd tywydd ofnadwy yn ystod y gêm ym Mhenrhyn-coch ond fe enillodd Dinbych y gêm o 2-1 gyda Pat Hinchcliffe a Mark Roberts yn sgorio'r goliau pwysig.

Dilynwyd hyn gyda thrip hir arall i Lansantffraid i wynebu Llanrhaeadr ym Mochnant lle collodd Dinbych o 1-0 dan amodau tywydd gwael eto. Ar hyn o bryd, nid yw maes Llanrhaeadr yn cwrdd â gofynion Cynghrair Huws Gray Cymru ac felly maent wedi cael eu gorfodi i chwarae eu gemau cartref ar gae'r pentref cyfagos, Llansantfffraid.

Y gêm nesaf oedd yn erbyn Prestatyn oddi cartref eto. Er bod Dinbych yn colli o 1-0 erbyn hanner amser, ac i lawr i 10 dyn yn dilyn Kristian Pierce yn cael ei hel oddi ar y cae gyda cherdyn coch, fe frwydrodd Dinbych yn galed a arweiniodd at Pat Hinchcliffe yn sgorio i'w gwneud hi'n 1-1. Ond yn anffodus, yn ystod y munudau olaf, llwyddodd Prestatyn i sgorio ac felly'r sgôr terfynol oedd 2-1.

O ganlyniad i hyn, mae Dinbych felly yn brwydro yn y 4ydd safle o waelod y tabl i aros yn y gynghrair gydag wyth gêm yn weddill o'r tymor.

Mae'r Ail Dîm yn parhau i wneud yn dda iawn yng Nghynghrair Ail Dimau Lock Stock Cymru, a chafwyd dwy fuddugoliaeth gyfforddus oddi cartref yn Nyffryn Nantlle (9-0) a Bae Cinmel (7-1). Andy Thomas a sgoriodd dair yn Nyffryn Nantlle, gyda'r gweddill yn dod gan Jack Kelly (2), Rhys Cooper, Ryan Roberts, Sion Jones a Paul Williams. Sgoriodd Rhys Cooper bedair gôl yn erbyn Bae Cinmel gyda Billy Holmes (2) ac Andy Thomas yn cyrraedd cefn y rhwyd hefyd.

Ail Dîm Llanberis oedd eu gwrthwynebwyr ar nos Wener yn Central Park gyda Dinbych yn sefyll yn yr ail safle yn y gynghrair a Llanberis yn y trydydd safle. Dinbych gipiodd y fuddugoliaeth y noson honno o 1-0 gyda Paul Williams yn sgorio yn ystod yr ail hanner.

Mae tîm y bechgyn ifanc - y Denbigh Development - yn parhau i fod ar waelod cynghrair Adran Un Dyffryn Clwyd a Chonwy yn dilyn dwy golled yn erbyn Ail Dîm Llanelwy o 7-0 a 4-1 yn erbyn Penrhyn Bay Dragons.

Oddi ar y cae, penodwyd Gareth (Perry) Thomas yn Gyfarwyddwr Pêl-droed y Clwb. Thomas oedd rheolwr y Clwb pan gyrhaeddon nhw rownd derfynol Cwpan Word yn 2016 a phan orffennon nhw yn y trydydd safle yng Nghynghrair Huws Gray Cymru. Yn ddiweddar, gadawodd fel aelod o dîm rheoli Conwy Borough.

Wrth siarad am ei ddychweliad, dywedodd, "Dw i'n edrych ymlaen at fy rôl newydd ac wrth fy modd o gael dychwelyd i Ddinbych. Dw i'n edrych ymlaen at gael defnyddio fy mhrofiad i helpu'r clwb cyfan o'r garfan Development, yr Ail Dîm hyd at y Tîm Cyntaf, ac yn fwy na hapus i helpu'r clwb i dyfu ar y cae ac oddi ar y cae. Dw i wedi cwrdd â'r staff hyfforddi i gyd cyn cytuno i gymryd y rôl a gobeithio y gallant ddefnyddio fy mhrofiad i helpu'r timau. Dw i'n edrych ymlaen at gael gweithio gyda Dewi Llion a Matty Jones er mwyn sicrhau bod y Clwb yn cadw eu lle yng Nghynghrair Huws Gray Cymru."

Iwan Jones









# CLWB RYGBI DINBYCH

*Efallai i chi sylwi fod erthygl a lluniau anghywir wedi ymddangos yn y rhifyn olaf o'r Bigwn. Mae'n wir ddrwg gen i am hyn, a does dim eglurhâd wedi dod i law hyd yn hyn. Felly dyma'r adroddiad oedd i fod i ymddangos yn rhifyn mis Chwefror, gydag adroddiad mis Mawrth i ddilyn.*

*Hoffwn ddiolch i Tegid Phillips, Llywydd y Clwb, am ei gyfraniad isod am ddau o "Hoelion Wyth" Clwb Rygbi Dinbych.*

Ar ddydd Sadwrn, 29ain Rhagfyr, dathlwyd a chydnabuwyd cyfraniad aruthrol dau unigolyn sydd yn ddau o'r mwyaf ymroddgar, ffyddlon a gweithgar yn hanes Clwb Rygbi Dinbych, h.y. Terry Bryer a Jeff Jenkins.
Meibion o Sir Gar ydi'r ddau ohonynt a'r ddau ohonynt yn rhannu nifer o nodweddion tebyg yn eu hymglymiad i'r Clwb. Nid yw'r naill neu'r llall yn fawr yn gorfforol ond maent yn enfawr yn hanes y Clwb, gyda'r ddau yn sefyll am yr hyn sydd yn dda ym myd rygbi. Yn ychwanegol, dyma ddau o bedwar awdur y llyfr diweddar fu yn nodi hanes y Clwb dros y 40 mlynedd ers 1977.
Yn debyg i'r rhai sydd wedi bod yn weision ffyddlon i'r Clwb, lles y Clwb, ac nid manteision personol, sydd bob tro wedi ei flaenoriaethu i Jeff a Terry.

TERRY BRYER
Ar ôl chwarae i Goleg Normal Bangor, Rhuthun a'r Wyddgrug, ymunodd Terry â'r Clwb ym 1981 ac nid oedd yn hir cyn iddo greu argraff. Mae Terry wedi bod yn aelod o'r prif bwyllgor, a nifer o is- bwyllgorau, am 37 mlynedd. O 1981 i 2001, fo oedd Cadeirydd o'r adran Mini-Iau yn y Clwb cyn iddo gymryd drosodd fel Cadeirydd y Clwb o 2004-2015. Nid yn un i osgoi gwaith 'brwnt', yn aml gwelir Terry yn glanhau'r ystafelloedd newid ac yn cymryd y cit budr i'r londrét!
Mewn cydnabyddiaeth o gyfraniad rhagorol Terry, o hyn ymlaen, enw'r prif gae chwarae yn y Clwb fydd 'Maes Terry Bryer.'

JEFF JENKINS
Yn ystod y 41 mlynedd o fodolaeth Clwb Rygbi Dinbych, gwelwyd nifer o ddatblygiadau a newidiadau, ond trwy'r daith bu un cysonyn, Jeff Jenkins, sydd wedi bod yn aelod llawn ers diwrnod cyntaf y Clwb. Mae Jeff wedi bod yn aelod o'r prif bwyllgor, a nifer o is-bwyllgorau, am 41 mlynedd. O 1983-86, Jeff oedd Llywydd y Clwb, ac o 1980-83 a 1986-2004, fe oedd Cadeirydd y Clwb. Wedi seibiant byr, cymerodd Jeff drosodd fel yr Ysgrifennydd tan 2015. Jeff sydd wedi sgwennu'r mwyafrif helaeth o adroddiadau Saesneg gemau'r tîm cyntaf i'r wasg dros 41 tymor.
Mewn cydnabyddiaeth o gyfraniad rhagorol Jeff, o hyn ymlaen, enw'r tŷ clwb ar Gaeau Les Phillips fydd 'Tŷ Clwb Jeff Jenkins.'

************************************

Cafwyd diweddglo eithaf boddhaol i'r flwyddyn 2018 ar Gaeau Les Phillips, gyda'r Tîm Cyntaf a'r Ail Dîm yn profi llwyddiant ar yr un prynhawn, achlysur pur anghyffredin hyd yn hyn y tymor hwn.
Gyda gêm y Tîm Cyntaf yn dirwyn i ben, Bro Ffestiniog oedd ar y blaen o 28-27, pan ddaeth cyfle i Ddinbych ennill y gêm o un pwynt gyda chic gosb tua 35 metr o'r pyst. Yn anffodus, aflwyddianus oedd yr ymdrech, a gydag eiliadau'n unig ar ôl ar y cloc, doedd dim dewis gan Ddinbych heblaw ceisio cadw'r bêl yn fyw yn dilyn y gic o'r llinell 22m. A dyna ddigwyddodd, gyda nifer o chwaraewyr yn llwyddo i basio'r bêl wrth daro'r llawr mewn tacl, cyn i Garin Roberts groesi yn y gornel am y cais buddugol. Roedd y fuddugoliaeth hon, o 32-28, yn un hynod bwysig, gan fod Bro un safle'n uwch yn y Gynghrair.
Roedd buddugoliaeth yr Ail Dîm, o 52-7 yn erbyn Yr Wyddgrug, yn llawer mwy cyfforddus, gyda Gareth Howatson ac Iwan Johnson yn sgorio dau gais yr un, gyda Iwan yn cyfrannu cyfanswm o 19 pwynt.
Wythnos yn ddiweddarach, ar ddydd Sadwrn cyntaf 2019, roedd yr hanes ychydig yn wahanol. Colli fu hanes y Tîm Cyntaf yn Llangefni o 52-24, gyda'r tîm cartref yn croesi am wyth cais, ond llwyddodd Dinbych i gael un pwynt bonws drwy sgorio pedwar cais eu hunain, gyda Kieran Bonar yn croesi ddwywaith.
Cafodd yr Ieuenctid gychwyn gwell i 2019 gan guro'r ymwelwyr o Langefni o 24-19 mewn gêm hynod agos, gyda Jac Jones yn croesi am hatric a Dion Pritchard yn sgorio cais.

Yr Adran Mini Iau
Cafwyd nifer o ganlyniadau da yn erbyn Y Rhyl, gyda'r Tîm Dan 7 yn ennill 8-5 a'r Dan 8 yn ennill o 10-9. Owen Staniforth oedd "Chwaraewr yr Wythnos". Llwyddodd y Tîm Dan 11 i guro'r Rhyl o 35-7, gyda Iori Jones yn "Seren y Gêm". Gethin Evans oedd "Seren y Gêm" i'r Dan 14 yn eu buddugoliaeth o 54-0.
Gêm gyfartal 12-12 gafodd y Tîm Dan 7, gyda'r Dan 8 yn ennill o 10-7, y ddau dîm yn erbyn Llandudno. Yn anffodus, collodd y Tîm Dan 10 o 48-21 a'r Dan 12 o 47-0 yn erbyn yr un gwrthwynebwyr.
Colli hefyd wnaeth y Tîm Dan 14, o 42-21 yn erbyn Wrecsam.

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

Daniel Morris
**CIGYDD LLEOL**
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
**124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS**




Jeff a Janet Jenkins




Phyllis a Terry Bryer

---

“Crisis Mr Picton!” Dyna oedd cri yr anfarwol Wali Tomos yn “C'mon Midffîld”. Ond “Crisis Mr Rowlands!” oedd hi cyn y gêm yn Llandudno yn erbyn y tîm diguro ar frig yr Adran, gyda'r Hyfforddwr Russ Rowlands yn cael ei orfodi i ddewis pum chwaraewr rheng flaen yn dilyn nifer o anafiadau yn y gêm flaenorol. Er gwaetha'r problemau, cafwyd perfformiad dewr gan y tîm cyn ildio'r gêm o 45-10, gydag Elliott Davies a Robin Williams yn croesi am geisiau i Ddinbych.
Ar Gae Smyrna yn Llangefni, enillodd yr Ail Dîm o 8-5 gyda chic gosb o 30 medr o ganol y mwd gan y canolwr Ben Reed yn sicrhau'r fuddugoliaeth gyda chic ola'r gêm. Sgoriodd David Roberts unig gais Dinbych.
Aeth yr Ieuenctid i'r Wyddgrug ac ennill o 27-3, gyda Rowan Hughes yn sgorio dau gais, cais yr un i Ryan Davenport ac Owen Jones, a lwyddodd gyda dau drosiad ac un cic gosb yn ogystal. Collwyd gêm Gwpan Gogledd Cymru yn erbyn yr ymwelwyr o Ddolgellau o 31-14. Braf oedd gweld y ddau dîm, eu cefnogwyr a'u hyfforddwyr yn aros yn y Clwb i wylio gêm Yr Eidal yn erbyn Cymru ar y sgrîn fawr, gan greu awyrgylch dda i wylio'r gêm, a'r Clwb yn orlawn.
Chwaraeodd y Tîm Dan 8 ddwy gêm yn erbyn Dolgellau, gan sgorio cyfanswm o 20 cais yn erbyn 14, a llwyddodd y Tîm Dan 10 i guro'r un gwrthwynebwyr o 39-19 gyda Louis McKeeown yn cael ei ddewis fel Seren y Gêm.
Am yr eildro mewn tair wythnos teithiodd y Dan 11 i gaeau moethus newydd Y Rhyl ac ennill o 42-0, gyda chymorth perfformiad arbennig gan Oli Owen.
Tom Ablett oedd Seren y Gêm i'r Dan 14 yn eu buddugoliaeth o 22-17 yn erbyn Nant Conwy.
Mewn gêm hynod gystadleuol rhwng timau Dan 11 Dinbych a Bae Colwyn, yr ymwelwyr o'r Bae gariodd y dydd o 19-14. Colli fu hanes y Dan 10 hefyd, o 40-15.
Cafodd y Dan 12 ganlyniad i'w drysori yn erbyn Y Bala, gan ennill o 35-24.
Canlyniadau cymysg iawn gafwyd gan y gwahanol dimau yn erbyn Wrecsam. Collodd y Tîm Dan 7 o 20-15, gyda'r Dan 8 yn sicrhau gêm gyfartal 18-18. Yr unig dîm i ennill oedd y Dan 11, o 42-11, gyda Charlie McManus yn cael ei enwi'n Seren y Gêm. Colli fu hanes y Dan 12 (ond does neb yn cofio'r sgôr!), ac hefyd y Dan 14, o 29-5.

*John Davies*



Cyfarwyddwr Pêl-droed newydd CPD Dinbych, Gareth (Perry) Thomas

gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

# Diwrnod casglu arian Cariad@Urdd



Staff Grðp Cynefin, Stryd y Dyffryn



Llinos o Lle Llinos



Wendy Evans a Jason Commins, Siop y Co-op



Nerys Evans,Pat Botham a Debbie Jones - Siop Alton Murphy



Iona o Siop Y Granar



Lottie o Siop Costellos




Roland Jones a Ceinwen Roberts - Llyfrgell



Tracey o Siop Gordell's




Natalie Noton,Sam Owen ac Helen Thompson , Cwmni Swayne a Johnson

***Golygydd Ebrill: John Davies***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain